UK Government

Department of
Agriculture, Environment and Rural Affairs
www.daera-ni.gov.uk

Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba
gov.scot

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim

Ymgynghoriad ar y cyd gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon

Dyddiad cau: 11 Mawrth 2024

Rhagfyr 2023

© Hawlfraint y Goron 2023

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0, ac eithrio pan nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn:
ukets.consultationresponses@energysecurity.gov.uk

# Cynnwys


Gwybodaeth Gyffredinol 4
- Pam rydym yn ymgynghori 4
- Manylion yr ymgynghoriad 4
- Sut mae ymateb 6
- Cyfrinachedd a diogelu data 6
- Sicrhau ansawdd 7

Cyflwyniad 8
- Y cynigion 9

Newid y Newidiadau mewn Lefelau Gweithgarwch 14
- Cynnig 1: Diweddaru Newidiadau mewn Lefelau Gweithgarwch 14

Newidiadau i Feincnodau 18
- Cynnig 2: Diweddaru meincnodau 18

Newidiadau i’r rhestr dadleoli carbon 24
- Cynnig 3: sut mae asesu’r risg o ddadleoli carbon. 24
- Cynnig 4: defnyddio’r ffactor agored i ddadleoli carbon 27
- Cynnig 5: Rhannu’r Ffactor Cywiro ar draws Sectorau yn Haenau 30

Ffactorau Ychwanegol ar gyfer Cyfrifo Dyraniadau Am Ddim 31
- Ystyried Argaeledd Technoleg Datgarboneiddio 31

Amodoldeb 35

Newidiadau Technegol i Ddyraniadau am Ddim 37

Crynodeb o'r Cynigion 41

Cwestiynau’r ymgynghoriad 43

Y Camau Nesaf 48

Geirfa 48

# Gwybodaeth Gyffredinol

## Pam rydym yn ymgynghori

Mae Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (ETS y DU) (Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon, 'yr Awdurdod' o hyn ymlaen) yn gofyn am fewnbwn ar nifer o gynigion i wella ein dull gweithredu ar gyfer dyraniadau am ddim.

Rydym wedi ymrwymo i dargedu dyraniadau am ddim yn well ar gyfer y sectorau sydd fwyaf mewn perygl o ddadleoli carbon cyn y cyfnod dyrannu nesaf yn 2026, ac i deilwra hyn i gyd-destun y DU. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar ein cynigion i gadw at yr ymrwymiad hwn. Mae'n cynnig opsiynau ar gyfer newidiadau i'r fethodoleg dyraniadau am ddim, gan gynnwys:

- Y dull o roi cyfrif am weithgarwch
- Meincnodi
- Ein ffordd o asesu'r risg o ddadleoli carbon
- Agweddau ychwanegol ar fethodoleg fel ystyried technolegau datgarboneiddio ac amodoldeb
- Cynigion technegol i wella'r gallu i weithredu a'r gallu i gyflawni'r cynllun.

## Manylion yr ymgynghoriad

**Cyhoeddwyd:** 18 Rhagfyr 2023

**Ymatebion erbyn:** 11 Mawrth 2024

**Ymholiadau i:**

Emissions Trading,
Department for Energy Security and Net Zero
3rd Floor
3-8 Whitehall Place
London
SW1A 2EG

E-bost: emissions.trading@energysecurity.gov.uk

**Cyfeirnod yr ymgynghoriad:** Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim

**Cynulleidfa:**

Bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb arbennig i gwmnïau unigol a chynrychiolwyr o’r sectorau diwydiannol a phŵer sydd â rhwymedigaethau o dan ETS y DU, ac i grwpiau amgylcheddol. Nid yw’r ymgynghoriad hwn wedi’i gyfyngu i’r rhanddeiliaid hyn; mae croeso i unrhyw sefydliad neu unigolyn ymateb. (Noder, nid yw’r ymgynghoriad hwn yn berthnasol i gynhyrchwyr trydan yng Ngogledd Iwerddon sy’n cymryd rhan yn ETS yr UE yn rhinwedd Protocol Iwerddon / Gogledd Iwerddon.)

**Rhychwant tiriogaethol:**

Mae’r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â chynigion i ddatblygu ETS y DU sy’n gweithredu ar draws Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae’n ymgynghoriad ar y cyd wedi’i gyhoeddi gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon.

## Sut mae ymateb

**Ymatebwch ar-lein yn:** https://energygovuk.citizenspace.com/energy-markets/uk-ets-free-allocation-review

neu

**E-bostiwch:** emissions.trading@energysecurity.gov.uk

**Ysgrifennwch at:**

Emissions Trading,
Department for Energy Security and Net Zero
3rd Floor
3-8 Whitehall Place
London
SW1A 2EG

Mae ffurflen ymateb ar gael ar dudalen ymgynghori GOV.UK: https://www.gov.uk/government/consultations/uk-emissions-trading-scheme-free-allocation-review

Wrth ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli safbwyntiau sefydliad.

Bydd eich ymateb yn ddefnyddiol iawn os bydd yn ymateb uniongyrchol i'r cwestiynau a ofynnir, er y croesewir rhagor o sylwadau a thystiolaeth hefyd.

## Cyfrinachedd a diogelu data

Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu rhannu ar draws Awdurdod ETS y DU. Gellir datgelu'r wybodaeth rydych yn ei darparu wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â deddfwriaeth y DU (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu rhannu ar draws Awdurdod ETS y DU.

Os ydych am i'r wybodaeth rydych yn ei darparu gael ei thrin yn gyfrinachol, rhowch wybod i ni, ond cofiwch na allwn sicrhau cyfrinachedd ym mhob sefyllfa. Ni fyddwn yn trin ymwadiad cyfrinachedd awtomatig wedi'i gynhyrchu gan eich system TG fel cais am gyfrinachedd.

Byddwn yn prosesu eich data personol yn unol â'r holl ddeddfau diogelu data perthnasol. Darllenwch ein polisi preifatrwydd.

Byddwn yn crynhoi'r holl ymatebion ac yn cyhoeddi'r crynodeb hwn ar GOV.UK. Bydd y crynodeb yn cynnwys rhestr o enwau neu sefydliadau a oedd wedi ymateb, ond ni fydd yn cynnwys enwau pobl, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill.

## Sicrhau ansawdd

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn yn unol ag egwyddorion ymgynghori'r llywodraeth.

Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn, e-bostiwch bru@energysecurity.gov.uk.

# Cyflwyniad

Dyraniadau am ddim o lwfansau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (ETS y DU) yw'r prif offeryn polisi sy'n mynd i'r afael â'r risg o ddadleoli carbon yn y DU ar hyn o bryd. Mae darparu lwfansau ETS y DU am ddim yn golygu bod angen i weithredwr brynu llai o lwfansau ar gyfer eu hallyriadau, sydd mewn gwirionedd yn lleihau'r pris carbon maent yn ei dalu ac yn lliniaru'r risg o ddadleoli carbon. Mae'r cymhelliant i ddatgarboneiddio yn cael ei gynnal oherwydd, yn gyffredinol, mae'r rhai sy'n cael dyraniadau am ddim ac yn datgarboneiddio yn cadw unrhyw ddyraniadau am ddim dros ben. Gallant werthu'r rhain ar y farchnad eilaidd er eu budd. Mae'r fethodoleg meincnodi hefyd yn cymell datgarboneiddio ymhellach drwy roi rhagor o ddyraniadau am ddim i'r safleoedd mwyaf effeithlon mewn sector.


Roedd ein dull gweithredu presennol ar gyfer dyraniadau am ddim ar gyfer safleoedd sefydlog o dan ETS y DU yn blaenoriaethu parhad i weithredwyr a methodoleg sydd wedi'i throsglwyddo i raddau helaeth o Gam IV ETS yr UE. Lansiodd yr Awdurdod adolygiad o bolisi dyraniadau am ddim yn 2021 gyda galwad am dystiolaeth. Y nod yw sicrhau bod polisi dyraniadau am ddim yn gweithio'n effeithiol yng nghyd-destun y DU i gymell lleihau allyriadau ac i ddiogelu diwydiannau ynni-ddwys ac sy'n agored i fasnachu rhag y risg o ddadleoli carbon. Byddwn hefyd yn cynnal asesiad effaith o'r mesurau a gynigir yn yr ymgynghoriad ar ddiwydiannau yr effeithir arnynt – yn benodol, effaith gostyngiad mewn lwfansau am ddim ochr yn ochr â mecanwaith addasu pris carbon ar draws ffiniau (CBAM) posibl y DU ar gyfer diwydiannau ynni-ddwys. Bydd yr asesiad effaith hwn yn cynnwys asesiadau penodol i sectorau. Yn yr ymgynghoriad Datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, cyhoeddwyd y byddai'r adolygiad yn cael ei gynnal mewn dau gam.

Nod y cam cyntaf oedd cysoni cap y diwydiant (y gyfran o ddyraniadau am ddim o dan y cap sydd ar gael i'w dosbarthu am ddim) â chap cyson â sero net cyffredinol ETS y DU a newidiadau technegol tymor byr arfaethedig i fynd i'r afael â phryderon a nodwyd fel rhan o'r alwad am dystiolaeth.

Yr ymgynghoriad hwn yw ail gam yr adolygiad, a fydd yn canolbwyntio ar newidiadau i'r fethodoleg ar gyfer dosbarthu dyraniadau am ddim gan sicrhau bod cymorth yn cael ei dargedu'n well at y sectorau sydd fwyaf mewn perygl o ddadleoli carbon, yng nghyd-destun diwydiant y DU ac o fewn terfynau'r cap diwydiant cyson â sero net newydd. Bydd y newidiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith o'r gwaelod i fyny erbyn 2026 i gyd-fynd ag ail gyfnod dyrannu ETS y DU.

Cyfrifir dyraniadau am ddim gan ddefnyddio'r hafaliad canlynol:

**Dyraniadau am Ddim Rhagarweiniol = Lefel Gweithgarwch Hanesyddol x Meincnod x Ffactor Agored i Ddadleoli Carbon**




*Ffigur 1 Diagram yn dangos sut mae dyraniadau am ddim yn cael eu cyfrifo*

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn mynd i'r afael â'r holl agweddau ar yr hafaliad dyraniadau am ddim a bydd yn ystyried methodolegau newydd gyda'r prif nod o sicrhau cymorth dadleoli carbon wedi'i dargedu'n well ar gyfer diwydiant y DU.

# Y cynigion

Yn y ddogfen ymgynghori hon, mae'r Awdurdod yn gofyn am safbwyntiau rhanddeiliaid ar gynigion i newid y fethodoleg dyraniadau am ddim ar gyfer y sectorau sefydlog er mwyn targedu'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o ddadleoli carbon yn well, a sicrhau bod dyraniadau am ddim yn cael eu dosbarthu'n deg. Bydd hyn yn canolbwyntio'n fras ar bedwar maes allweddol: sut rydym yn ystyried allyriadau a gweithgarwch, meincnodau, y rhestr dadleoli carbon, a ffactorau ychwanegol y gallem fod yn dymuno eu cyflwyno i fethodoleg dyraniadau am ddim.

Ar sail yr ymatebion a gawsom drwy'r ymgynghoriad Datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU a gynhaliwyd gennym yn 2022, mae'r Awdurdod yn cynnig y byddwn yn gwneud newidiadau i'r fethodoleg dyraniadau am ddim ar sail yr egwyddorion canlynol:

- Egwyddor Un – Sicrhau bod ETS y DU yn mynd ati'n effeithiol i liniaru'r risg o ddadleoli carbon drwy'r pris carbon y mae'n ei osod, gan sicrhau gostyngiad gwirioneddol i allyriadau byd-eang.

- Egwyddor Dau – Ystyried argaeledd a hygyrchedd technolegau datgarboneiddio ar gyfer sectorau ETS y DU.
- Egwyddor Tri – Bydd newidiadau i bolisi dyraniadau am ddim yn y dyfodol yn cyd-fynd â'n targedau ehangach o ran yr hinsawdd.

Bydd yr Awdurdod yn ystyried cydnawsedd polisi dyraniadau am ddim â'n huchelgeisiau sero net a datblygiad polisïau dadleoli carbon amgen ehangach wrth inni wneud unrhyw newidiadau yn y dyfodol.

Rydym yn croesawu cyfraniadau gan yr holl randdeiliaid yn yr ymgynghoriad hwn, p'un a ydynt yn weithredwyr sy'n cael dyraniadau am ddim, yn gyrff rheoleiddio, yn grwpiau hinsawdd neu'n gyrff anllywodraethol. Bydd rhai rhannau o'r ymgynghoriad yn gofyn am dystiolaeth i gefnogi'r ymatebion. Os gofynnir am hyn, byddem yn annog anfon tystiolaeth ysgrifenedig. Bydd tystiolaeth ysgrifenedig yn helpu'r Awdurdod i ddatblygu ei bolisi yn y dyfodol, gan sicrhau bod penderfyniadau terfynol yn ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael.

**Dyraniadau am Ddim a Mesurau Lliniaru Dadleoli Carbon Eraill**

Yn ddiweddar, ymgynghorodd Llywodraeth y DU ar amrywiaeth o fecanweithiau polisi posibl i liniaru'r risg o ddadleoli carbon a sicrhau'r amgylchedd cywir i ddiwydiant y DU ddatgarboneiddio. Roedd hyn yn cynnwys ystyried mecanwaith addasu pris carbon ar draws ffiniau a safonau cynnyrch gorfodol, ochr yn ochr â mesurau polisi eraill i dyfu'r farchnad ar gyfer cynnyrch carbon isel.

Mae dadleoli carbon yn cyfeirio at symud cynhyrchiant ac allyriadau cysylltiedig o un wlad i un arall oherwydd gwahanol lefelau o ymdrech datgarboneiddio drwy brisio carbon a rheoliadau mewn cysylltiad â'r hinsawdd. O ganlyniad i ddadleoli carbon, byddai amcan ymdrechion datgarboneiddio – lleihau allyriadau byd-eang – yn cael ei danseilio. Un ffordd y gall prisio carbon achosi dadleoli carbon yw oherwydd bod busnesau'n wynebu costau uwch na chynhyrchwyr mewn awdurdodaethau eraill, gan achosi gostyngiad mewn cynhyrchu domestig ac allyriadau cysylltiedig, ac ehangiad mewn mannau eraill. Pe bai pob gwlad yn wynebu'r un pris carbon, yna ni fyddai prisio carbon yn arwain at risg o ddadleoli carbon, oherwydd byddai gan bob cynhyrchwr yr un costau fesul tunnell o garbon yn gysylltiedig â'u cynhyrchiad.

Mae polisi dyraniadau am ddim o dan ETS y DU yn mynd i'r afael â'r risg o ddadleoli carbon drwy leihau pa mor agored yw cwmni i'r pris carbon. Cyfrifir cymhwysedd ar gyfer dyraniadau am ddim ar sail pa mor agored yw cwmni i fasnachu a dwysedd allyriadau. Po fwyaf agored i fasnachu yw proses gynhyrchu, y mwyaf tebygol yw'r broses o wynebu'r risg o ddadleoli carbon, yn enwedig wrth gystadlu yn erbyn cwmnïau mewn awdurdodaethau nad oes

angen iddynt ystyried pris carbon fel rhan o’u proses gynhyrchu. Po fwyaf dwys o ran allyriadau yw proses gynhyrchu, y mwyaf agored yw cwmni i’r pris carbon, a’r mwyaf tebygol y bydd hyn yn arwain at risg o ddadleoli carbon.

Fel y nodir yn ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar ddadleoli carbon, byddai mecanwaith addasu pris carbon ar draws ffiniau (CBAM) yn mynd i’r afael â risg dadleoli carbon drwy ddefnyddio pris carbon effeithiol ar gyfer cynhyrchion sy’n cael eu mewnforio i awdurdodaeth sydd â phris carbon domestig. Mae pris carbon effeithiol yn cyfrif am unrhyw ddisgownt i’r prif bris carbon fel dyraniadau am ddim sy’n cael eu dosbarthu i gwmnïau domestig sydd mewn perygl o ddadleoli carbon o dan ETS.  Byddai defnyddio’r pris carbon effeithiol i gyfrifo’r pris sy’n cael ei ddefnyddio gan CBAM ar gyfer cynhyrchion sy’n cael eu mewnforio yn sicrhau ei fod yn debyg i’r pris carbon mae cynhyrchwyr domestig yn ei wynebu. Drwy ddefnyddio’r pris hwn ar gyfer mewnforion, byddai gan gynhyrchion perthnasol sy’n cael eu gwerthu ar farchnad ddomestig bris carbon tebyg sy’n gysylltiedig â’u hallyriadau creiddiol, gan alluogi cwmnïau domestig i ddatgarboneiddio heb danseilio’r ymdrechion hynny.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gyflwyno CBAM i ddiogelu yn erbyn y risg o ddadleoli carbon. Bydd Awdurdod ETS y DU yn ystyried pob opsiwn, gan gynnwys sut gellid addasu polisi dyraniadau am ddim i adlewyrchu’r risg is o ddadleoli carbon ar gyfer sectorau penodol a’r polisïau lliniaru ehangach sydd ar waith i gefnogi diwydiant y DU. Mae hyn yn cyd-fynd â dulliau eraill a ddefnyddir yn rhyngwladol, fel yn yr UE.


Fodd bynnag, mae nodweddion sectorau yn wahanol, felly nid yw pob opsiwn lliniaru yn effeithio ar sectorau, a’r risgiau dadleoli carbon y maent yn eu hwynebu, yn yr un ffordd. Felly, nid yw pob opsiwn lliniaru yn gweithredu mor effeithiol ar gyfer mewnforion ac allforion, a gallai fod rôl i ddyraniadau am ddim barhau mewn rhai achosion.

Nawr bod Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gyflwyno CBAM, un dull posib yw dirwyn dyraniadau am ddim i ben yn raddol ar gyfer sectorau sy’n cael eu cwmpasu gan CBAM yn y DU. Fodd bynnag, byddai angen i unrhyw addasiad i ddyraniadau am ddim ystyried risgiau sy’n benodol i sectorau unigol er mwyn sicrhau bod y risg o ddadleoli carbon yn cael ei lliniaru’n effeithiol, a byddai’n destun datblygiad polisi ac ymgynghori. Byddai angen penderfynu ar fethodoleg i bennu cyfradd dirwyn dyraniadau am ddim i ben yn raddol, petai hyn fyddai’r opsiwn polisi sy’n cael ei ffafrio yn y dyfodol, yn dibynnu ar fanylion technegol dyluniad polisi CBAM y DU.  Byddai angen asesiad hefyd o’r effaith ar y sectorau yr effeithir arnynt ac ystyriaeth o’r fframwaith ehangach ar gyfer lliniaru dadleoli carbon, fel y nodir yn yr ymgynghoriad ar fynd i’r afael â’r risg o ddadleoli carbon i gefnogi datgarboneiddio. Bydd Llywodraeth y DU yn parhau i

ymgysylltu ag Awdurdod ETS y DU wrth i'r ddau ddatblygu polisïau dadleoli carbon.

| Cwestiynau |
| --- |
| 1. A oes gennych unrhyw safbwyntiau ar y rhyngweithio rhwng mesurau lliniaru dadleoli carbon eraill a CBAM a/neu'r senarios polisi cyffredinol y dylai Awdurdod ETS y DU eu harchwilio yn y dyfodol, o ystyried bod Llywodraeth y DU wedi penderfynu cyflwyno CBAM? Esboniwch eich ymateb. |

Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad wedi ystyried y cyd-destun yn y dyfodol, gan sicrhau bod modd rhoi sicrwydd i weithredwyr yn y cynllun, gan roi'r arwydd hirdymor sydd ei angen ar fusnesau i fuddsoddi mewn prosiectau datgarboneiddio nawr, yn ogystal â chael dealltwriaeth gliriach o'u hawl i gael dyraniadau am ddim o bosibl a chaniatáu iddynt asesu pa mor agored ydynt i'r pris carbon. Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio'n benodol ar yr ail gyfnod dyrannu ar gyfer dyraniadau am ddim dros 2026-2030. Byddwn yn ymgynghori ar ragor o fanylion ynghylch sut dylai polisi dyraniadau am ddim weithio cyn unrhyw gamau ETS y DU yn y dyfodol o 2031 ymlaen. Er y bydd ymgynghori pellach yn dibynnu ar ddyluniad polisi technegol CBAM yn y DU, bydd polisi ar ddyraniadau am ddim yn dal i ystyried ffactorau ychwanegol.




*Ffigur 2 Llinell Amser Adolygu Dyraniadau am Ddim*

Bydd y newidiadau sy'n cael eu gweithredu yn dilyn yr ymgynghoriad hwn yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer yr ail gyfnod dyrannu sy'n dechrau yn 2026. Mae'r amserlen

adolygu dyraniadau am ddim yn Ffigur 2 yn dangos ein hamseriadau ar gyfer cyhoeddiadau yn y dyfodol i sicrhau bod hyn yn digwydd. Bydd Awdurdod ETS y DU yn gwneud ei orau glas i gyhoeddi newidiadau i ddyraniadau am ddim cyn gynted ag sy’n ymarferol bosibl yn dilyn y cyfnod adrodd data llinell sylfaen, gan nodi’r angen am sicrwydd i gyfranogwyr yn y cynllun.

# Newid y Newidiadau mewn Lefelau Gweithgarwch

**Newidiadau i gyfrif am weithgarwch**

Er mwyn lliniaru'r risg o ddadleoli carbon yn effeithiol, rhaid i ddyraniadau am ddim adlewyrchu graddfa gweithgarwch gweithredwr. O dan y fethodoleg bresennol ar gyfer dyraniadau am ddim, mae swm sylfaenol y lwfansau am ddim y gall gweithredwyr cymwys eu cael wedi'i bennu gan lefel gweithgarwch hanesyddol (HAL), wedi'i lluosi â'r meincnod perthnasol a'r ffactor agored i ddadleoli carbon (CLEF).

Diffinnir HAL fel y lefel gweithgarwch cyfartalog dros flynyddoedd y llinell sylfaen ar gyfer cyfnod dyrannu penodol (ee ar gyfer cyfnod dyrannu 2021-2025, blynyddoedd y llinell sylfaen oedd 2014-2018). Cyfrifir HAL gan ddefnyddio data o'r adroddiad data llinell sylfaen (BDR) y mae gweithredwyr yn ei gyflwyno i reoleiddwyr cyn dechrau pob cyfnod dyrannu.

Mae swm y lwfansau am ddim y bydd gweithredwr yn eu cael ym mhob blwyddyn o'r cyfnod dyrannu yn cael ei gyhoeddi gan Awdurdod ETS y DU yn y tabl dyrannu a bydd yn newid dim ond os bodlonir y meini prawf ar gyfer newid lefel gweithgarwch (ALC). Bwriad y mecanwaith ALC yw sicrhau bod dyraniadau am ddim yn adlewyrchu newidiadau yng ngraddfa gweithgarwch.

## Cynnig 1: Diweddaru Newidiadau mewn Lefelau Gweithgarwch

Mae Cam 1 ETS y DU wedi'i rannu'n ddau 'gyfnod dyrannu', 2021-2025 a 2026-2030. Cyn pob cyfnod dyrannu, bydd swm y dyraniadau am ddim y mae pob gweithredwr yn gymwys i'w cael yn cael ei gyfrifo a'i gyhoeddi yn y tabl dyrannu. Mae'r camau'n cael eu rhannu'n gyfnodau dyrannu i sicrhau bod cymhwysedd dyraniadau am ddim yn gyfredol ac yn adlewyrchu lefelau gweithgarwch a chynnydd datgarboneiddio ar draws pob sector. Gellir hefyd gwneud newidiadau i ddyraniadau am ddim yn ystod cyfnodau dyrannu os oes newidiadau sylweddol i lefelau gweithgarwch gweithredwr.

Yn ystod y cyfnod dyrannu, mae gweithredwyr yn cyflwyno adroddiad lefel gweithgarwch (ALR) ar ddiwedd pob blwyddyn cynllun. Os bydd lefel gweithgarwch cyfartalog gweithredwr mewn unrhyw gyfnod o ddwy flynedd yn cynyddu neu'n gostwng 15% neu fwy o'i gymharu â'i lefel gweithgarwch hanesyddol (HAL), bydd newid mewn lefel gweithgarwch (ALC) yn cael ei sbarduno. Ail-gyfrifir dyraniadau am ddim ar gyfer y flwyddyn cynllun yn dilyn y cyfnod o ddwy flynedd pan aethpwyd dros

y trothwy, gan ddefnyddio'r cyfartaledd dwy flynedd yn lle HAL. Gwneir addasiad dim ond pan fyddai'r newid mewn lefelau gweithgarwch yn arwain at addasiad blynyddol o 100 o lwfansau am ddim neu fwy. Yna caiff y tabl dyrannu ei ddiweddaru ac mae dyraniadau am ddim y gweithredwr yn aros ar y lefel addasedig ar gyfer gweddill y cyfnod dyrannu, oni bai fod ALC pellach yn cael ei sbarduno. Mae'r trothwy ar gyfer ALC dilynol yn ystod y cyfnod dyrannu yn cynyddu bob 5%: ee y trothwy ar gyfer ail ALC yw 20%, y trothwy ar gyfer trydydd yw 25%, ac yn y blaen.

Yn achos meincnodau gwres a thanwydd, ni ellir mesur gweithgarwch o ran allbwn (neu gynhyrchiad). Yn hytrach, mesurir gweithgarwch o ran faint o wres neu danwydd a ddefnyddir i gynhyrchu. Felly, nid yw lefelau gweithgarwch yn adlewyrchu cynhyrchiad yn uniongyrchol. Yn hytrach, gall cynnydd neu ostyngiad mewn gweithgarwch fod oherwydd newidiadau mewn effeithlonrwydd ynni cynhyrchiad. Pan fydd lefel gweithgarwch cyfartalog dwy flynedd is-safle, gan ddefnyddio'r meincnodau gwres neu danwydd, yn fwy na'r trothwy ALC, nid yw'r cynnydd neu'r gostyngiad cyfatebol mewn dyraniadau am ddim yn cael ei brosesu os yw'r newid mewn gweithgarwch yn ganlyniad i newid mewn effeithlonrwydd ynni. Mewn achosion o'r fath, mae effeithlonrwydd ynni (gweithgarwch cyfartalog wedi'i rannu â chynhyrchiad cyfartalog) yn ystod y cyfnod o ddwy flynedd yn cael ei gymharu ag effeithlonrwydd ynni yn ystod y cyfnod llinell sylfaen o bum mlynedd. Os yw gostyngiad mewn gweithgarwch a adroddir (dros y trothwy ALC) yn deillio o effeithlonrwydd ynni uwch yn hytrach na gostyngiad mewn cynhyrchiad gwirioneddol, ni fydd gostyngiad mewn dyraniadau am ddim. Ar y llaw arall, os yw'r cynnydd mewn gweithgarwch a adroddir (dros y trothwy ALC) yn ganlyniad i effeithlonrwydd ynni is, ni roddir dyraniadau am ddim ychwanegol.

Mae defnyddio HAL yn golygu bod dyraniadau am ddim yn seiliedig ar weithgarwch hanesyddol yn ystod y cyfnod llinell sylfaen yn hytrach na gweithgarwch gwirioneddol yn ystod y cyfnod dyrannu, ac felly efallai nad yw'n adlewyrchu lefelau gweithgarwch presennol yn gywir. Er bod y mecanwaith ALC yn sicrhau bod newidiadau mwy mewn gweithgarwch yn cael eu hystyried, mae'r trothwy o 15% o leiaf yn caniatáu i newidiadau o dan y lefel hon ddigwydd heb unrhyw effaith ar ddyraniadau am ddim. Er enghraifft, nid yw gweithredwyr sy'n cynyddu gweithgarwch llai na'r trothwy yn cael unrhyw ddyraniadau ychwanegol am ddim hyd yn oed os yw'r cynnydd mewn gweithgarwch yn golygu eu bod yn wynebu cost carbon uwch, a allai greu cymhelliant i gyfyngu ar gynhyrchiad. I'r gwrthwyneb, nid yw gweithredwyr sy'n gostwng gweithgarwch llai na'r trothwy yn colli unrhyw ddyraniadau am ddim hyd yn oed os yw'r gostyngiad mewn gweithgarwch yn golygu eu bod yn wynebu cost carbon is, a allai greu cymhelliant i ostwng cynhyrchiad.

**Opsiwn 1: Gwneud dim**

Mae Awdurdod ETS y DU yn ystyried cadw at y rheolau a'r trothwyon HAL ac ALC presennol fel y mecanwaith ar gyfer sicrhau bod dyraniadau am ddim yn adlewyrchu

gweithgarwch a newidiadau mewn gweithgarwch. Byddai hyn yn darparu parhad i weithredwyr, yn cynnal y baich gweinyddol presennol ar weithredwyr a rheoleiddwyr, ac yn sicrhau bod dyraniadau am ddim yn adlewyrchu newidiadau sylweddol mewn lefelau gweithgarwch sy’n fwy na’r trothwyon ALC presennol.

**Opsiwn 2: Dyraniad dynamig**

Er mwyn targedu dyraniadau am ddim yn well pan fo angen, mae Awdurdod ETS y DU yn ystyried disodli’r mecanwaith HAL/ALC presennol â dull dyrannu dynamig. Byddai’r dull hwn yn golygu y byddai’r lwfansau am ddim a ddyrennir ar ddechrau pob blwyddyn cynllun yn cael eu trin fel dyraniadau dros dro. Gallai dyraniadau dros dro fod yn seiliedig ar linell sylfaen hanesyddol, fel sy’n digwydd ar hyn o bryd, neu gellid eu cyfrifo gan ddefnyddio cyfnod treigl a fyddai’n adlewyrchu lefelau gweithgarwch diweddar yn fwy cywir (ee cyfartaledd y ddwy flynedd ddiweddaraf y mae data ar gael ar eu cyfer, fel 2023/24 ar gyfer 2026). Byddai dyraniadau am ddim wedyn yn cael eu haddasu ar ôl diwedd pob blwyddyn cynllun i adlewyrchu’r gweithgarwch gwirioneddol fel yr adroddir yn yr ALR. Pe bai’r gweithgarwch gwirioneddol yn uwch nag yn y cyfnod a ddefnyddiwyd i gyfrifo dyraniadau am ddim dros dro, byddai’r dyraniadau am ddim yn cael eu cynyddu. Pe bai’r gweithgarwch gwirioneddol yn is, byddai’r gor-ddyraniad yn cael ei ddychwelyd. Byddai hyn yn sicrhau bod dyraniadau am ddim yn adlewyrchu gweithgarwch gwirioneddol yn gywir ar gyfer pob blwyddyn cynllun, gan ddileu’r cymhelliant posibl i ostwng neu gyfyngu ar gynhyrchiad.

O dan ddull dyrannu dynamig, ni fyddai trothwy o 15% ar gyfer ALCs. Byddai hyn yn golygu y byddai’r dyraniadau am ddim ar gyfer y rhan fwyaf o safleoedd yn cael eu haddasu bob blwyddyn, er y gellid cynnal y trothwy presennol o 100 lwfans er mwyn osgoi’r angen i wneud newidiadau bach. Byddai ALRs yn cael eu hasesu gan reoleiddwyr ac yn cael eu cymeradwyo gan Awdurdod ETS y DU, fel sy’n digwydd o dan y rheolau presennol, ond oherwydd y cynnydd yn nifer y newidiadau i ddyraniadau, gallai’r broses gymeradwyo gymryd hirach. Felly, byddai cadarnhad o swm y lwfansau am ddim sydd i’w hychwanegu neu eu dychwelyd yn digwydd ar ryw adeg ar ôl y dyddiad cydymffurfio ar gyfer blwyddyn cynllun benodol.

Ar hyn o bryd mae Awdurdod ETS y DU yn cyhoeddi tabl dyraniadau, sy’n dangos dyraniadau cychwynnol sy’n seiliedig ar HAL ac sy’n cael ei ddiweddaru i ddangos newidiadau sy’n deillio o ALCs. Heb drothwy ALC o 15%, ni allai’r tabl dyraniadau roi’r un lefel o sicrwydd i weithredwyr o ran y dyraniad cyffredinol yn y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, byddai’r tabl yn parhau i roi rhywfaint o sicrwydd o ran dyraniadau dros dro.

Yn achos meincnodau gwres a thanwydd, dim ond os nad yw effeithlonrwydd ynni wedi gostwng y mae ALCs yn cael eu prosesu ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, mae newidiadau mewn effeithlonrwydd ynni yn cael eu mesur yn erbyn effeithlonrwydd

ynni cyfartalog yn y cyfnod llinell sylfaen hanesyddol o bum mlynedd. Efallai na fydd y mecanwaith hwn yn gweithio mor effeithiol heb gyfeirio at gyfnod llinell sylfaen sefydlog. O dan ddull dyrannu dynamig, felly, gallai'r cyfrifiad effeithlonrwydd ynni a ddefnyddir i bennu dilysrwydd newidiadau mewn gweithgarwch ar gyfer meincnodau gwres a thanwydd barhau i gyfeirio at linell sylfaen hanesyddol sefydlog o bum mlynedd, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Os bydd Awdurdod ETS y DU, ar sail yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a'r datblygiadau polisi pellach, yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen â dull dyrannu dynamig, efallai y byddwn yn ailystyried y trothwyon ar gyfer sbarduno ALCs, a byddem yn croesawu safbwyntiau ymatebwyr ar hyn.

| Cwestiynau |
|---|
| 2. A ddylai ETS y DU gynnal y dull presennol ar gyfer newidiadau mewn lefel gweithgarwch neu newid i ddull gweithredu dynamig (hy a ddylid addasu'r dyraniadau am ddim ar ôl diwedd blwyddyn cynllun ar sail lefelau gweithgarwch a adroddir)?<br>3. Pe bai dull gweithredu dynamig yn cael ei roi ar waith, a ddylid cyfrifo dyraniadau dros dro ar sail cyfnod treigl o weithgarwch a adroddwyd yn ddiweddar?<br>4. Pe bai dyraniadau dros dro yn cael eu cyfrifo drwy gyfnod treigl, a ddylai hyn fod yn seiliedig ar y ddwy flynedd galendr lawn ddiweddaraf o weithgarwch wedi'i ddilysu (ee 2023-2024 ar gyfer dyraniadau 2026)?<br>5. O dan y dull dynamig, a ddylai'r cyfrifiad effeithlonrwydd ynni ar gyfer is-safleoedd meincnod wrth gefn barhau i gyfeirio at linell sylfaen hanesyddol sefydlog?<br>6. Os na fydd ETS y DU yn newid i ddull gweithredu dynamig, a ddylai Awdurdod ETS y DU ystyried lleihau'r trothwy ALC o 15%, ac os felly, beth fyddai trothwy priodol? |

# Newidiadau i Feincnodau

**Meincnodau yn ETS y DU**
Mae meincnod yn werth cyfeirio ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr o'i gymharu â gweithgarwch cynhyrchu. Mae 52 o feincnodau cynnyrch, pob un yn cynrychioli cyfartaledd y 10% o safleoedd mwyaf effeithlon ar gyfer cynnyrch penodol ledled Ewrop. Lle nad yw'n bosibl defnyddio meincnod cynnyrch, defnyddir dau feincnod wrth gefn sy'n seiliedig ar gynhyrchu gwres a defnyddio tanwydd, neu ffactor allyriadau proses.

Defnyddir meincnodau yn ETS y DU i bennu faint o ddyraniadau am ddim y mae gan safleoedd hawl i'w cael. Bwriad meincnodau yw gwobrwyo'r safleoedd mwyaf effeithlon a chymell datgarboneiddio. Mewn egwyddor, bydd lwfansau am ddim yn darparu ar gyfer cyfran uwch o allyriadau safleoedd y mae eu heffeithlonrwydd carbon yn nes at y meincnodau, a bydd lwfansau am ddim yn darparu ar gyfer cyfran is o allyriadau safleoedd y mae eu heffeithlonrwydd carbon ymhellach i ffwrdd o'r meincnodau.

Yn ystod cyfnod dyrannu cyntaf ETS y DU (2021-2025), defnyddiwyd meincnodau Cam IV ETS yr UE. Roedd hyn er mwyn sicrhau parhad i weithredwyr, bod meincnodau'n seiliedig ar setiau digon eang o ddata, a sicrhau bod dyraniadau am ddim yn cael eu dyfarnu ar sail gymharol â chymheiriaid yn yr UE, gan achosi cyn lleied o effaith â phosibl ar broffidioldeb busnesau yr effeithir arnynt.


Roedd Awdurdod ETS y DU wedi datgan o'r blaen y byddai'n ystyried newidiadau i'r fethodoleg ar gyfer pennu dyraniadau am ddim rhagarweiniol a therfynol, gan gynnwys ystyried meincnodau, fel rhan o'r adolygiad o ddyraniadau am ddim.

## Cynnig 2: Diweddaru meincnodau

Mae Awdurdod ETS y DU yn ystyried newidiadau i feincnodau, ac a ddylai meincnodau wedi'u diweddaru gynnwys data safleoedd y DU. Ar hyn o bryd mae ETS y DU yn defnyddio'r un gwerthoedd meincnodau â Cham IV ETS yr UE, a gafodd eu hymgorffori yng nghyfraith y DU, fel y nodir yn ymateb Awdurdod ETS y DU i ymgynghoriad Datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Ni ddefnyddiwyd data safleoedd y DU i ddiweddaru meincnodau o Gam III i Gam IV ETS yr UE.

Ar hyn o bryd, mae meincnodau'n cael eu diweddaru drwy fethodoleg Cyfraddau Gostyngiad Blynyddol (ARRs). Ar gyfer diweddariad meincnodau Cam IV ETS yr UE, pennwyd ARRs drwy gyfrifo perfformiad cyfartalog y 10% o'r safleoedd mwyaf

effeithlon ar gyfer 2016-2017 ar gyfer pob meincnod, ac yna cymharu hyn â meincnod Cam III yr UE. Yna, cafodd yr ARR ei chymhwyso hyd at 2022-2023, pwynt canol y cyfnod dyrannu cyntaf. Ar hyn o bryd mae gan ARRs derfyn uchaf ac isaf, sef 0.2% ac 1.6% yn y drefn honno. Mae meincnodau sydd wedi gostwng mewn dwysedd allyriadau fwy na chyfartaledd o 1.6% y flwyddyn ers y data llinell sylfaen yn cael ARR o 1.6%. Mae meincnodau sydd wedi gostwng mewn dwysedd allyriadau llai na chyfartaledd o 0.2% y flwyddyn yn cael ARR o 0.2%.




*Ffigur 3 Diagram yn dangos sut mae ARR yn cael ei defnyddio i gyfrifo Meincnodau ar gyfer Cam IV ETS yr UE*

Bwriad ARRs yw adlewyrchu'r dwysedd allyriadau a ragwelir mewn cyfnod. Bwriad trothwyon ARR yw gostwng y meincnod rhwng cyfnodau dyrannu i ystyried gwelliannau mewn dwysedd allyriadau ymysg y safleoedd sy'n perfformio orau yn eu sector.

Mae gan sectorau sydd wedi gwella dwysedd eu hallyriadau'n sylweddol ostyngiadau meincnod mwy sylweddol i adlewyrchu potensial datgarboneiddio'r sector hwnnw, sy'n golygu bod angen llai o lwfansau am ddim i liniaru eu risg o ddadleoli carbon yn briodol. Bydd sectorau sydd â gwelliannau mwy cyfyngedig o ran dwysedd allyriadau yn cael gostyngiad meincnod llai sylweddol, sy'n golygu bod angen mwy o lwfansau am ddim i liniaru eu risg o ddadleoli carbon yn briodol.

Archwiliodd yr Awdurdod a ddylid ystyried methodolegau amgen i ddyrannu lwfansau am ddim yn effeithiol, fel dyraniadau sy'n canolbwyntio ar allyriadau. Barn yr Awdurdod yw bod y methodolegau hyn fel arfer yn gwobrwyo safleoedd ag allyriadau uchel yn hanesyddol, ac nad ydynt yn gyson ag amcan dyraniadau am ddim, sef cymell datgarboneiddio. Mae'r Awdurdod yn credu mai meincnodi yw'r mecanwaith priodol o hyd i sicrhau bod lwfansau am ddim ETS y DU yn cael eu dyrannu mewn ffordd sy'n gwobrwyo safleoedd sy'n perfformio'n dda ac yn cymell datgarboneiddio, yn unol ag amcanion ETS y DU.

Mae'r Awdurdod yn ystyried nifer o opsiynau o ran y dull gweithredu ar gyfer meincnodau cyn cyfnod dyrannu 2026-2030.

**Opsiwn 1: Dim newid i feincnodau**

Y senario "gwneud dim" yw y byddai'r meincnodau presennol a ddefnyddiwyd yn ystod cyfnod 2021-2025 yn parhau i fod mewn grym ar gyfer cyfnod dyrannu 2026-2030. Felly, ni fyddai unrhyw ddiweddariadau i feincnodau drwy'r fethodoleg ARR.

Heb ddiweddariad, ni fyddai meincnodau'n cyfrif am welliannau mewn effeithlonrwydd a gyflawnwyd gan sectorau ers y diweddariad blaenorol.

**Opsiwn 2: Defnyddio meincnodau diweddaraf yr UE ar gyfer 2026**

Bydd yr UE yn diweddaru meincnodau Cam IV ETS yr UE cyn cyfnod dyrannu 2026-2030. Byddai defnyddio'r meincnodau newydd hyn yn cadw meincnodau ETS y DU yn gyson â'r rhai sy'n cael eu defnyddio yn yr UE ac yn sicrhau tegwch i weithredwyr rhwng y ddau gynllun. Bydd hefyd yn seiliedig ar ddata mwy diweddar na'r meincnodau Cam IV sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd, ac felly bydd yn adlewyrchu'r datblygiadau technolegol sydd bellach ar gael.

Disgwylir i'r meincnodau UE newydd hyn fod yn llawer mwy uchelgeisiol na'r meincnodau cyfredol. Mae'r UE wedi cynnig cynyddu'r trothwy uchaf ar gyfer ARRs i 2.5% o 2026 ymlaen, a fydd yn creu gwerthoedd meincnodau mwy llym ar gyfer y sectorau hynny lle mae'r gyfradd wella flynyddol yn >1.6%. Mae'r UE hefyd wedi nodi y bydd safleoedd sy'n defnyddio technolegau newydd sy'n lleihau nwyon tŷ gwydr yn rhannol neu'n llawn yn cael eu cynnwys yng nghwmpas ETS yr UE, a allai dynhau meincnodau ymhellach oherwydd gallai dwysedd allyriadau nwyon tŷ gwydr y 10% o'r safleoedd mwyaf effeithlon ostwng o ganlyniad.

Ni fydd data'r DU yn cael ei ddefnyddio yn y diweddariad i feincnodau. Felly, gallai hyn olygu y byddai'r diweddariad yn seiliedig ar arbedion effeithlonrwydd nad ydynt ar gael i weithredwyr yn y DU.

Ni fydd gan Awdurdod ETS y DU sicrwydd ynghylch y gwerthoedd meincnodau nes y byddant yn cael eu cyhoeddi. Byddai hyn yn cyfyngu ar faint o rybudd a sicrwydd y gallai'r Awdurdod eu rhoi i weithredwyr ETS y DU.


Oherwydd na fydd data safleoedd y DU yn cael ei ddefnyddio yn y diweddariad nesaf i feincnodau'r UE a'r sicrwydd cyfyngedig ar werthoedd meincnodi, mae Awdurdod ETS y DU yn bwriadu peidio â defnyddio meincnodau newydd yr UE ar gyfer cyfnod dyrannu 2026-2030. Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod yn parhau i ystyried a oes ffordd o ddefnyddio meincnodau newydd yr UE yn y dyfodol os gellir sicrhau eu bod yn adlewyrchu arbedion effeithlonrwydd allyriadau cyfranogwyr diwydiannol y DU.

**Opsiwn 3: Diweddaru meincnodau gan ganolbwyntio ar y DU (y Bwriad)**

Mae Awdurdod ETS y DU yn bwriadu diweddaru meincnodau ar gyfer y cyfnod dyrannu nesaf ar sail data safleoedd y DU yn unig. Byddai defnyddio data'r DU yn y diweddariad yn arwain at ARRs a meincnodau sy'n adlewyrchu cyfraddau gwella safleoedd yn y DU.

Yn wahanol i opsiwn 2, sy'n cynnig newidiadau cyfanwerthol i feincnodau gyda newidiadau i drothwyon ARR a chynnwys technolegau newydd, y fethodoleg ar gyfer opsiwn 3 fyddai:

- Pennu'r ARR ar gyfer pob meincnod cynnyrch drwy gymharu safle mwyaf effeithlon y DU yn 2016/2017 a 2022/2023 yn y drefn honno.
  - Rydym yn awgrymu'r cyfnod hwn gan fod 2016/2017 wedi cael ei ddefnyddio yn y diweddariad meincnodau blaenorol fel pwynt cymharu, a 2022/2023 yw pwynt canol y cyfnod dyrannu presennol.
  - Rydym yn awgrymu cymharu'r safle mwyaf effeithlon yn y DU, yn hytrach na'r "10% uchaf", ar gyfer meincnodau cynnyrch o ystyried y nifer mwy cyfyngedig o is-safleoedd yn y DU.
  - Ar gyfer meincnodau wrth gefn (gwres a thanwydd), byddai'r ARR yn cael ei phennu drwy gymharu perfformiad cyfartalog y 10% o safleoedd mwyaf effeithlon yn y DU.
- Defnyddio'r ARR gyda'r gwerthoedd meincnodau o gyfnod dyrannu cyntaf ETS y DU.
- Allosod yr ARR rhwng 2017 a 2028, pwynt canol y cyfnod dyrannu nesaf.
  - Gyda throthwyon ARR o 0.2%-1.6% y flwyddyn, byddai cyfnod 11 mlynedd (2017-2028) yn arwain at ostyngiadau meincnod yn amrywio rhwng 2.2% a 17.6%.




*Ffigur 4 Diagram yn dangos sut mae ARR yn cael ei chynnig i ddiweddaru Meincnodau 2026-2030 ETS y DU*

Mae'r Awdurdod yn ymwybodol bod gan rai meincnodau cynnyrch nifer cyfyngedig o is-safleoedd, a allai arwain at seilio'r ARR ar faint sampl cyfyngedig. Mae hyn yn cael ei liniaru gan y ffaith y bydd yr ARR yn seiliedig ar yr is-safle mwyaf effeithlon yn y DU ar gyfer pob meincnod cynnyrch. Ar ben hynny, nid ymarfer ail-feincnodi llawn yw'r fethodoleg hon. Meincnod cyfnod dyrannu cyntaf ETS y DU yw'r man cychwyn o hyd ar gyfer cymhwyso'r ARR.

Mae'r Awdurdod hefyd yn ymwybodol nad oes gan rai meincnodau cynnyrch is-safleoedd yn y DU. Byddai diweddaru'r meincnodau hyn yn gofyn am fethodoleg wahanol, fel defnyddio'r trothwy ARR lleiaf. Yn ymarferol, fodd bynnag, ni fydd hyn yn cael effaith ar unwaith ar weithredwyr ETS y DU oherwydd nid oes gweithredwyr yn y DU yn defnyddio'r meincnodau hyn ar hyn o bryd.

I grynhoi, bydd yr opsiwn hwn yn arwain at ddiweddaru gwerthoedd meincnodau ar sail data'r DU, a fydd yn golygu y dylai ARRs a meincnodau adlewyrchu'n well arbedion effeithlonrwydd safleoedd yn y DU. Gan y byddai meincnodau'n gostwng o'r cyfnod dyrannu cyntaf i'r ail, byddai lwfansau am ddim yn gostwng yn eu tro. Bydd y gostyngiad yn dibynnu ar arbedion effeithlonrwydd safleoedd y DU ac felly bydd yn dibynnu ar ddata a ddarperir i'r Awdurdod fel rhan o'r gwaith casglu data llinell sylfaen nesaf.

| Cwestiynau |
| --- |
| 7. Ydych chi'n cytuno mai meincnodi yw'r fethodoleg briodol i sicrhau bod lwfansau am ddim yn gwobrwyo'r safleoedd sy'n perfformio orau ac yn cymell datgarboneiddio? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb<br>8. Beth yw eich barn chi ar yr opsiynau arfaethedig ar gyfer diweddaru meincnodau ETS y DU?<br>9. Ydych chi'n cytuno â'r bwriad arfaethedig ar gyfer diweddaru meincnodau gan ddefnyddio data'r DU yn unig i bennu'r ARR? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb<br>10. Os nad ydych chi'n cytuno â'r fethodoleg a awgrymir, rhowch dystiolaeth ategol ynghylch pam na ddylid ei dilyn ac awgrymiadau ar gyfer methodoleg amgen ar gyfer diweddaru meincnodau.<br>11. A oes gennych unrhyw safbwyntiau ar fethodolegau eraill y gellir eu defnyddio i ddiweddaru meincnodau heb is-safleoedd yn y DU? |

# Newidiadau i'r rhestr dadleoli carbon

**Y Rhestr Dadleoli Carbon**

Mae'r Rhestr Dadleoli Carbon (CLL) yn rhestr o sectorau yr ystyrir eu bod mewn perygl o ddadleoli carbon. Ar hyn o bryd mae ETS y DU yn defnyddio Restr Dadleoli Carbon Cam IV ETS yr UE. Mae'r Rhestr yn diffinio'r sectorau sydd fwyaf mewn perygl o ddadleoli carbon ar sail asesiad o ddwysedd eu hallyriadau a'u dwysedd masnachu.

Ar hyn o bryd, mae'r sectorau diwydiant ETS y DU ar y Rhestr yn cael dyraniad dros dro o 100% o'u dyraniad am ddim wedi'i feincnodi fel rhan o'r cam dyraniadau am ddim rhagarweiniol (Ffactor Agored i Ddadleoli Carbon (CLEF) o 1). Mae'r sectorau diwydiant hynny nad ydynt ar y Rhestr yn cael dyraniad dros dro o 30% o'u dyraniad am ddim wedi'i feincnodi fel rhan o'r cam dyraniadau am ddim rhagarweiniol (CLEF o 0.3).

## Cynnig 3: sut mae asesu'r risg o ddadleoli carbon

**Dull gweithredu ar gyfer y fethodoleg**

Ar gyfer y rhestr dadleoli carbon bresennol, aseswyd y risg fesul sector o ddadleoli carbon mewn dau gam. Y cam cyntaf oedd asesiad meintiol a oedd yn neilltuo dangosydd dadleoli carbon i bob sector. Defnyddiodd yr asesiad meintiol hwn y cyfrifiad:

*Dangosydd Dadleoli Carbon – Dwysedd Masnachu x Dwysedd Allyriadau*

Roedd sectorau ac is-sectorau gyda dangosydd dadleoli carbon dros 0.2 yn cael eu hystyried mewn perygl o ddadleoli carbon ac yn cael eu cynnwys ar y rhestr dadleoli carbon, fel y dangosir yn Ffigur 1. Roedd yr ail gam ar gyfer ystyried sectorau ac is-sectorau a oedd yn achosion ffiniol (hy roedd y dangosydd dadleoli carbon yn fwy na 0.15 ond heb fod yn fwy na 0.2) y gallent fod yn gymwys ar gyfer yr asesiad ansoddol ail lefel wedi'i strwythuro ar sail tri maen prawf:

1. Potensial i ostwng – i ba raddau y mae'n bosibl i safleoedd unigol yn y sector neu is-sectorau dan sylw ostwng lefelau allyriadau neu'r defnydd o drydan.

2. Nodweddion y farchnad – nodweddion y farchnad bresennol a'r rhai a ragwelir, gan gynnwys unrhyw bris cyfeirio cyffredin lle bo hynny'n berthnasol (hy prisiau nwyddau).

3. Maint yr elw – mae maint yr elw yn arwydd posibl o benderfyniadau adleoli neu fuddsoddi hirdymor, gan ystyried newidiadau mewn costau cynhyrchu sy'n ymwneud â gostwng allyriadau.

Pasiodd 44 o sectorau'r asesiad lefel gyntaf, a chafodd 19 sector ac is-sector ychwanegol eu cynnwys ar y rhestr dadleoli carbon ar ôl yr asesiad ail lefel.

Fel rhan o'r adolygiad o fethodoleg dyraniadau am ddim, rydym wedi ystyried a ddylem ddefnyddio ffactorau ychwanegol, neu amgen, i ddwysedd masnachu a dwysedd allyriadau i gyfrifo'r dangosydd dadleoli carbon. Fel y trafodwyd yn yr adran ar fesurau lliniaru dadleoli carbon eraill ar dudalen 10, po fwyaf agored i fasnachu yw proses gynhyrchu, y mwyaf tebygol yw'r broses o wynebu'r risg o ddadleoli carbon, yn enwedig wrth gystadlu yn erbyn cwmnïau mewn awdurdodaethau nad oes angen iddynt ystyried pris carbon fel rhan o'u proses gynhyrchu. Po fwyaf dwys o ran allyriadau yw proses gynhyrchu, y mwyaf agored yw cwmni i'r pris carbon, a'r mwyaf tebygol y bydd hyn yn arwain at risg o ddadleoli carbon. Datblygwyd y defnydd o'r metrigau hyn i gyfrifo'r dangosydd dadleoli carbon dros bedwar cam ETS yr UE, lle roedd y DU wedi chwarae rhan ganolog yn ei ddatblygiad.

Mae Awdurdod ETS y DU yn credu bod y metrigau hyn yn asesiad cywir o'r risg o ddadleoli carbon ar gyfer cyfrifo hawl safle i ddyraniadau am ddim. Ar ben hynny, bydd cynnal y metrigau hyn wrth gyfrifo dangosydd dadleoli carbon yn rhoi sicrwydd i'r diwydiant ynghylch ein dull gweithredu ar gyfer yr asesiad hwn. Felly, ein bwriad yw cynnal y fethodoleg bresennol ar gyfer y dangosydd dadleoli carbon ar gyfer yr ail gyfnod dyrannu.

**Defnyddio data**

Ar hyn o bryd, mae dwysedd masnachu a dwysedd allyriadau ar gyfer cyfrifiad y dangosydd dadleoli carbon yn cael eu cyfrifo ar sail data'r UE (yr Ardal Economaidd Ewropeaidd), a oedd yn cynnwys data hanesyddol y DU, a gallai cyfrifo'r rhain ar sail data'r DU yn unig arwain at ganlyniadau gwahanol i sectorau.

Fel rhan o'n hadolygiad o'r rhestr dadleoli carbon, fe wnaethom ystyried a ddylem ddefnyddio ffynonellau data amgen i gyfrifo'r rhestr. Rydym wedi archwilio setiau data amgen a fyddai'n ein galluogi i adlewyrchu'n well y risg o ddadleoli carbon yn y diwydiant yn y DU. Rydym wedi edrych ar y dewisiadau amgen canlynol sydd, yn ein barn ni, yn rhestr hollgynhwysfawr o ddata sydd ar gael ar hyn o bryd yn y maes hwn.

1. Data Log Trafodion yr **Undeb Ewropeaidd (UE)** (yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd – *y sefyllfa wrthffeithiol*)

2. Cronfa ddata TECO2 y **Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)**

3. Data allyriadau a masnach y **Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)**
4. **Data'r DU** a gasglwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac a ategir gan yr Arolwg Busnes Blynyddol (ABS) a data masnach Cyllid a Thollau ei Fawrhydi (CThEF).

Rydym wedi defnyddio nifer o feini prawf allweddol i asesu'r data; cywirdeb o ran adlewyrchu tebygolrwydd dadleoli carbon, methodoleg amddiffynadwy, darpariaeth sectorau ETS, canolbwyntio ar y DU, argaeledd gwybodaeth a hirhoedledd ffrydiau data. Mae rhagor o fanylion am ein hasesiad ar gael yn yr Atodiad Dadansoddol i'r ymgynghoriad hwn, ond mae crynodeb o'n hasesiad cychwynnol o'r opsiynau yn seiliedig ar y dull penderfynu meini prawf lluosog a ddefnyddiwyd wedi'i nodi isod.

Er y byddai Data Log Trafodion yr UE yn cynnal parhad, nid oes unrhyw ddata cadarn ar y DU wedi cael ei gyflwyno ers 2018 ac nid yw'r set ddata bresennol yn cynrychioli risg y DU o ddadleoli carbon ar sail pa mor agored i fasnachu yw'r diwydiant domestig na dwysedd ei allyriadau. Am y rheswm hwn, mae'r Awdurdod yn bwriadu peidio â pharhau i ddefnyddio'r set ddata hon i gynhyrchu'r rhestr dadleoli carbon.

Wrth archwilio cronfa ddata TECO2 yr OECD a setiau data'r SYG ar gyfer dwysedd allyriadau a dwysedd masnachu, gwelwyd bod llawer o sectorau allweddol yn y DU ar goll o'r rhestrau hyn, ac felly mae diffyg tryloywder o ran y fethodoleg a'r data sylfaenol. Hefyd nid yw'r setiau data hyn yn adlewyrchu'n gywir y tebygolrwydd o ddadleoli carbon. Felly, nid yw'r Awdurdod yn bwriadu defnyddio'r setiau data hyn ar hyn o bryd i gyfrifo'r dangosydd dadleoli carbon.

Os daw unrhyw wybodaeth newydd i'r amlwg, drwy ymatebion i'r ymgynghoriad neu ddatblygiadau polisi yn y dyfodol cyn ymateb yr Awdurdod, efallai y byddwn yn ailystyried defnyddio'r setiau data uchod i asesu'r dangosydd dadleoli carbon.

Mae'r Awdurdod hefyd wedi archwilio defnyddio data'r DU ar sail y SYG ac wedi'i ategu gan yr Arolwg Busnes Blynyddol a data masnach CThEF. Mae manylion am hyn ar gael yn yr Atodiad Dadansoddol i'r ymgynghoriad hwn. Mae gan y set ddata hon fethodoleg glir y gellir ei hamddiffyn, darpariaeth sectoraidd eang, mae'n canolbwyntio ar y DU, mae'n dryloyw ac yn cael ei diweddaru'n aml. Mae'r Awdurdod yn bwriadu archwilio cywirdeb y set ddata hon ymhellach a byddem yn croesawu safbwyntiau ynghylch a yw'r data hwn yn cynrychioli dwysedd masnachu a dwysedd allyriadau sectorau yn y DU. Os bydd yr Awdurdod, drwy ddatblygiadau polisi pellach a drwy ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, yn ystyried bod y set ddata hon yn gynrychioliadol yn erbyn yr asesiad meini prawf lluosog, byddem yn ystyried defnyddio hyn i bennu'r dangosydd dadleoli carbon yn y dyfodol.

| Cwestiynau |
| --- |
| 12. Ydych chi'n cytuno y dylid diweddaru'r rhestr dadleoli carbon i adlewyrchu risg dadleoli carbon sector diwydiannol y DU? Os ydych yn anghytuno, esboniwch sut rydych yn meddwl y dylid cyfrifo'r rhestr dadleoli carbon yn y dyfodol.<br>13. Ydych chi'n cytuno y dylid parhau i gyfrifo'r risg o ddadleoli carbon ar sail dwysedd allyriadau a dwysedd masnachu, neu a oes ffactorau eraill y dylai'r Awdurdod eu hystyried yn eich barn chi?<br>14. Ar sail y setiau data rydym wedi'u harchwilio, ydych chi'n cytuno â'n dull o archwilio gan ddefnyddio data'r DU yn seiliedig ar ddata masnachu'r SYG, ABS a CThEF? Ac, os canfyddir bod y set ddata hon yn gynrychioliadol, ydych chi'n cytuno y dylai'r Awdurdod ei defnyddio i gyfrifo'r dangosydd dadleoli carbon?<br>15. Ydych chi'n cytuno â'r risgiau rydym wedi'u nodi gyda'r setiau data amgen? Os nad ydych chi, darparwch dystiolaeth. |

## Cynnig 4: defnyddio'r ffactor agored i ddadleoli carbon


O dan y rheolau presennol, mae'r safleoedd hynny sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr dadleoli carbon yn gymwys ar hyn o bryd i gael dyraniadau am ddim o hyd at 100% o'r lefel meincnod berthnasol. Mae'r rhai nad ydynt ar y rhestr dadleoli carbon yn cael 30% o'r lefel meincnod berthnasol hyd at 2026, a bwriedir i ddyraniadau am ddim gael eu dirwyn i ben yn raddol erbyn 2030. Cyfeirir at y ffactor hwn fel y Ffactor Agored i Ddadleoli Carbon (CLEF).

**Dull gweithredu ar gyfer sectorau nad ydynt mewn perygl**

Y bwriad oedd dirwyn y CLEF i ben yn raddol erbyn 2030 ar gyfer y rhai nad ystyrir eu bod mewn perygl o ddadleoli carbon. Fodd bynnag, gallai'r dyddiad dirwyn i ben hwn gael ei ddwyn ymlaen i 2026, gan dynnu'r dyraniadau am ddim ar gyfer sectorau nad ydynt mewn perygl o ddadleoli carbon a thargedu cymorth yn lle hynny at y rhai sydd mewn mwy o berygl. Bydd darparu CLEF o 0 i'r rhai nad ystyrir eu bod mewn perygl o ddadleoli carbon o 2026 ymlaen hefyd yn helpu i liniaru'r risg o sbarduno'r Ffactor Cywiro ar draws Sectorau (CSCF) (gweler y ffigur isod). Ar ben hynny, byddai hyn yn cyd-fynd â'r dyddiad dirwyn i ben ar gyfer dyraniadau am ddim i'r sector hedfan. O ystyried y rhesymau hyn, ein bwriad yw dod â dyddiad dirwyn i ben y CLEF ymlaen ar gyfer y rhai nad ydynt ar y rhestr dadleoli carbon i 2026. Bydd hyn yn berthnasol i restr dadleoli carbon 2026 rydym yn ei datblygu gan ddefnyddio'r fethodoleg a nodir yng nghynnig tri.

**Y Ffactor Cywiro ar draws Sectorau**

Os yw cyfanswm y dyraniadau am ddim ar gyfer pob gweithredwr diwydiannol yn uwch na chap y diwydiant, rydym yn lleihau dyraniadau am ddim safleoedd sefydlog yn gymesur. Dyma’r Ffactor Cywiro ar draws Sectorau (CSCF).




*Ffigur 5. Diagram yn dangos y CSCF*

**Rhannu’r rhestr dadleoli carbon yn haenau**


Un ffordd y gellid addasu’r rhestr dadleoli carbon i dargedu’r diwydiannau hynny sydd mewn mwy o berygl o ddadleoli carbon fyddai rhannu’r rhestr yn haenau. Mae’r rhestr dadleoli carbon yn ddeuaidd ar hyn o bryd ac nid yw’n gwahaniaethu rhwng sectorau sydd mewn perygl mwy a llai o ddadleoli carbon. O dan y dull deuaidd presennol, mae'r sectorau hynny sydd mewn perygl cymharol isel o ddadleoli carbon yn derbyn yr union un CLEF â'r sectorau hynny sy'n sgorio'n uchel ar y rhestr. Bydd rhannu’r rhestr yn haenau hefyd yn cefnogi’r gwaith o liniaru’r risg o sbarduno’r Ffactor Cywiro ar draws Sectorau (CSCF).

Ar gyfer dyluniad terfynol yr haenau, bydd angen i’r Awdurdod ystyried sut rydym yn gosod y trothwyon. Mae’r Awdurdod wedi ystyried sawl dyluniad gwahanol ar gyfer sut y gallem rannu’r rhestr dadleoli carbon yn haenau, ac mae tri o’r rhain wedi’u hamlinellu isod fel enghreifftiau i ddangos beth mae rhannu’n haenau yn ei olygu.

Ar gyfer unrhyw ddyluniadau terfynol yr haenau, gallem ystyried amrediadau ar gyfer canran y dyraniadau am ddim a geir yn erbyn y meincnod, er enghraifft:


- Haen Risg Uchaf: 70%-100%
- Haen Risg Ganolig: 40%-70%
- Haen Risg Isel: 10%-40%
- Haen Dim Risg: 0%

**Enghraifft 1 o Ddyluniad yr Haenau: Haenau Cyfartal.** Byddai'r dyluniad hwn yn cynnwys pedair haen sydd wedi'u gwasgaru'n gyfartal, sy'n ymwneud â risg uchel, risg ganolig, risg isel, a dim risg o ddadleoli carbon. Ym mhob un o'r haenau hyn, byddem yn ystyried amrediad ar gyfer y CLEF.




*Ffigur 6. Diagram Dangosol o Haenau Cyfartal*

**Enghraifft 2 o Ddyluniad yr Haenau: Haen risg uchel fawr.** Byddai'r dyluniad hwn yn rhoi blaenoriaeth i gynnwys rhagor o sectorau yn yr haen risg uchel, gyda haenau llai ar gyfer risg ganolig a risg isel. Ar gyfer pob haen, byddem yn edrych ar yr un amrediadau ar gyfer CLEF ag y nodir uchod.




*Ffigur 7. Diagram Dangosol o Haen Risg Uchel Fawr*

**Enghraifft 3 o Ddyluniad yr Haenau: Rhannu'n haenau ar gontinwwm.** Byddai'r dyluniad hwn yn golygu rhoi CLEF o 1 i'r sector risg uchaf, ac yna rhoi CLEF is i bob sector arall ar sail continwwm wedi'i bwysoli. Byddai dal yn bosibl cynnwys haen 'dim risg' gyda'r opsiwn hwn.

Wrth benderfynu ar ddyluniad terfynol yr haenau, os byddwn yn dewis rhannu'r rhestr yn haenau, byddwn yn ystyried yr egwyddorion canlynol:

- Risg dadleoli carbon sectorau
- Nifer y sectorau ym mhob haen
- Nifer yr haenau
- Cyfanswm nifer y Dyraniadau am Ddim o fewn Cap y Diwydiant

## Cynnig 5: Rhannu'r Ffactor Cywiro ar draws Sectorau yn Haenau

Ffordd arall y mae'r Awdurdod wedi ystyried targedu'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o ddadleoli carbon yn well yw rhannu'r CSCF yn haenau os caiff ei ddefnyddio.

Yn hytrach na chymhwyso gostyngiad cyfartal mewn dyraniadau am ddim ar draws pob safle, gellid pwysoli'r gostyngiad ar sail pa mor agored i risg o ddadleoli carbon y mae gwahanol sectorau. Pe bai CSCF yn cael ei sbarduno, byddai'r rhai sydd â'r risg uchaf o ddadleoli carbon yn cael gostyngiad cymesur is yn eu dyraniadau am ddim na'r rhai sydd â risg is.

| Cwestiynau |
|---|
| 16. Ydych chi'n cytuno â'n bwriad i ddod â dyddiad dirwyn i ben y CLEF ymlaen i 2026 ar gyfer y rhai nad ydynt ar restr dadleoli carbon 2026?<br><br>17. Ydych chi'n cytuno y dylai'r Awdurdod rannu'r rhestr dadleoli carbon yn haenau er mwyn targedu'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o ddadleoli carbon yn well?<br><br>18. A oes gennych safbwyntiau ar yr egwyddorion y dylai'r Awdurdod eu defnyddio i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar ddylunio haenau os byddwn yn dewis rhannu'r rhestr dadleoli carbon yn haenau?<br><br>19. Uchod, rydym wedi amlinellu tair enghraifft o ffyrdd y gallem rannu'r rhestr dadleoli carbon yn haenau. A oes gennych unrhyw safbwyntiau ar y rhain? A oes gennych safbwyntiau ar ffyrdd eraill o wneud hyn?<br><br>20. A oes gennych safbwyntiau ynghylch a ddylem rannu'r Ffactor Cywiro ar draws Sectorau yn Haenau os caiff ei ddefnyddio? |

# Ffactorau Ychwanegol ar gyfer Cyfrifo Dyraniadau Am Ddim

Fel rhan o'r adolygiad o ddyraniadau am ddim, mae'r Awdurdod wedi ystyried ffactorau ychwanegol y gellid eu cyflwyno wrth gyfrifo'r hawl i ddyraniadau am ddim. Y ffactorau hyn yw argaeledd technoleg datgarboneiddio ac amodoldeb. Ar gyfer y ffactorau hyn, mae opsiwn "gwneud dim" na fyddai'n cyflwyno unrhyw elfennau ychwanegol i'r fethodoleg dyraniadau am ddim. Byddai'r opsiwn gwneud dim yn darparu parhad i weithredwyr ac yn cynnal y baich gweinyddol presennol ar weithredwyr a rheoleiddwyr.

## Ystyried Argaeledd Technoleg Datgarboneiddio

Un o'r prif egwyddorion ar gyfer ail gam yr adolygiad o ddyraniadau am ddim oedd 'ystyried argaeledd a hygyrchedd technoleg datgarboneiddio'. Drwy'r adolygiad hwn rydym wedi ystyried a allai'r gwaith o gyfrifo dyraniadau am ddim ystyried argaeledd technoleg datgarboneiddio ar raddfa fawr, a sut.

Un pryder a godwyd gan randdeiliaid yn yr ymatebion i ymgynghoriad Datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (2022) oedd y gallai fod anghysondeb mewn sectorau rhwng y rhai sydd â mynediad cynharach at dechnolegau datgarboneiddio ar raddfa fawr drwy gynlluniau cymorth y llywodraeth, a'r rhai heb hynny. Bydd y rhai sydd â mynediad at dechnolegau datgarboneiddio ar raddfa fawr, fel Dal a Storio Carbon a hydrogen gwyrdd, yn gallu lleihau eu hallyriadau'n sylweddol ond cynnal eu lefelau dyraniadau am ddim, a gallant wedyn werthu eu dyraniadau am ddim am refeniw ychwanegol. Yn yr un sector, os nad oes gan gystadleuwyr eraill yr un mynediad at y dechnoleg datgarboneiddio hon, ni fyddant yn gallu gwerthu eu dyraniadau am ddim am refeniw. Gallai hyn greu annhegwch rhwng gweithredwyr yn yr un sector.

Mae'r Awdurdod wedi archwilio dulliau y gallem eu defnyddio i ystyried unrhyw anghysondebau o ran argaeledd technolegau datgarboneiddio. Bydd y ffrwd waith hon yn ystyried sut i ddiffinio pa dechnolegau y dylid eu cynnwys, a sut y dylid ystyried 'argaeledd a mynediad' ar gyfer gweithredwyr. Gwnaethom nodi tair egwyddor allweddol ar gyfer y broses hon, a amlinellir isod:


1. Rhaid i'r camau a gymerir yn y maes hwn fod yn ofalus i beidio â datgymell rhag buddsoddiad sy'n cael ei yrru gan y farchnad mewn technoleg datgarboneiddio ar raddfa fawr yn anfwriadol.
2. Dylai'r gwaith hwn ganolbwyntio ar edrych ar ystumiadau posibl yn y farchnad sy'n cael eu creu gan bolisi dyraniadau am ddim ac a allem fynd i'r afael â nhw/sut y gallem fynd i'r afael â nhw.

3. Ni ddylai polisi dyraniadau am ddim bennu pa dechnolegau y dylai sectorau fynd ar eu trywydd ar gyfer datgarboneiddio.

**Opsiwn 1: Dadgyfuno Meincnodau**

Wrth ystyried opsiynau sy'n mynd i'r afael â'r risg o ystumio'r farchnad yn cael ei sbarduno gan bolisïau'r llywodraeth, mae'r Awdurdod wedi archwilio'r opsiwn o ddadgyfuno meincnodau i roi cyfrif am hyn.

Gellid dadgyfuno meincnodau i ystyried a oes gan is-safle fynediad at brosiect datgarboneiddio ar raddfa fawr. Byddai'r dull hwn yn rhoi safleoedd â gwahanol argaeledd o ran technolegau datgarboneiddio ar wahanol feincnodau ac felly ni fyddent yn cael eu mesur yn erbyn ei gilydd.




*Ffigur 8 Diagram yn dangos y dull o ddadgyfuno meincnodau*

Mae nifer o risgiau a heriau yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn, sy'n cael eu hamlinellu isod.

Mae'r opsiwn hwn yn cysylltu â'r cynigion o ran meincnodau a amlinellir yn yr adran uchod. Nid yw'r meincnodau presennol yn dadgyfuno ar sail mynediad at gyllid y llywodraeth ac felly byddai'r opsiwn hwn yn gofyn am ddatblygu meincnodau newydd ar gyfer y DU. Gall cyfrifo meincnodau newydd ar sail mynediad at brosiect a ariennir fod yn heriol oherwydd y nifer isel o safleoedd yn y DU sydd eisoes wedi'u cynnwys mewn rhai meincnodau. Pe baem yn gwneud y grwpiau meincnod hyn hyd yn oed yn llai, gallai hyn greu anawsterau wrth gyfrifo gwerthoedd meincnodau cynrychioliadol.

Byddai'n anodd cyfrifo'r meincnodau dadgyfuno newydd hyn cyn y cyfnod dyrannu ar gyfer 2026 gan na fyddai rheoleiddwyr yn gallu cael gafael ar y data ar werthoedd meincnodau newydd cyn i unrhyw safleoedd osod technoleg newydd. Byddai angen datblygu methodoleg a oedd yn gwahaniaethu rhwng y % o allyriadau y disgwylir i wahanol brosiectau a ariennir eu cynnwys. Heb y dull hwn er enghraifft, gallai safle sydd â mynediad at CCUS a gefnogir gan y llywodraeth sy'n cwmpasu 40% o'i allyriadau gael ei symud i'r un meincnod â safle sydd â CCUS sy'n cwmpasu 95% o'i allyriadau, er gwaethaf y gwahanol lefelau o gymorth gan y llywodraeth.

Byddai hyn yn gofyn am ddull cadarn iawn o nodi pa gynlluniau gan y llywodraeth sy’n ymwneud â datgarboneiddio i’w cynnwys, ac ystyried sut mae rhoi sylw i agweddau fel mynediad at gysylltiadau’r grid ar gyfer trydaneiddio. Gallai fod yn anodd cynllunio hyn mewn ffordd sy’n cynnal hyblygrwydd os caiff cynlluniau newydd y llywodraeth eu cyflwyno yn ystod y cyfnod dyrannu nesaf.

Gallai cael meincnodau gwahanol ar gyfer yr un cynnyrch hefyd gyfyngu ar y cymhelliant i newid i broses carbon is. Os mai dim ond un meincnod sydd ar gyfer un cynnyrch, mae cymhelliant clir i newid i gynhyrchiad carbon is, os yw ar gael, gan fod hyn yn golygu bod safleoedd yn nes at ystod uchaf eu meincnodau, gan roi rhagor o ddyraniadau am ddim iddynt eu gwerthu am refeniw ychwanegol.

Byddai ansicrwydd yn gysylltiedig â’r dull hwn hefyd, gan na fyddai gan reoleiddwyr ddata ynghylch beth fyddai’r effaith ar wella effeithlonrwydd ynni ar gyfer gwahanol dechnolegau nes bydd y technolegau hyn wedi cael eu defnyddio. Felly, gallai fod yn anodd datblygu’r meincnodau newydd hyn cyn cyfnod dyrannu 2026.

**Opsiwn 2: Cynnwys prosesau cynhyrchu carbon isel/dim carbon mewn cyfrifiadau meincnodau**

Mae’r Awdurdod hefyd wedi edrych ar ffordd arall o ystyried technolegau datgarboneiddio mewn methodolegau dyraniadau am ddim a fyddai’n ystyried prosesau diwydiannol sydd ag allyriadau carbon isel iawn neu ddim allyriadau carbon wrth gyfrifo meincnodau (fel hydrogen gwyrdd). Byddai cynnwys y prosesau cynhyrchu di-garbon hyn wrth gyfrifo meincnodau yn gostwng y meincnod ar gyfer cynhyrchu ac yn hybu newid i brosesau mwy effeithlon.

Ar hyn o bryd, prin yw’r defnydd o brosesau cynhyrchu carbon isel iawn neu ddi-garbon yn y DU. Oherwydd y byddai angen inni gyfrifo meincnodau cyn y cyfnod dyrannu nesaf er mwyn rhoi sicrwydd, mae’n debygol na fyddai defnyddio’r dull hwn yn cael fawr o effaith ar feincnodau ar gyfer cyfnod dyrannu 2026-2030. Fodd bynnag, mae’n ddull y gellid ei ystyried ar gyfer y tymor hirach wrth i brosesau cynhyrchu carbon isel iawn a di-garbon gynyddu.

| Cwestiynau |
|---|
| 21. A oes gennych safbwyntiau ar yr egwyddorion rydym wedi’u hamlinellu ar gyfer ystyried technoleg datgarboneiddio?<br><br>22. A oes gennych safbwyntiau ar sut dylai Awdurdod ETS y DU ddiffinio technolegau datgarboneiddio i’w cynnwys yn y gwaith hwn?<br><br>23. Uchod, rydym wedi amlinellu dwy fethodoleg bosibl ar gyfer sut y gallem ystyried mynediad at dechnoleg datgarboneiddio wrth gyfrifo dyraniadau am ddim. A oes gennych safbwyntiau ar y dulliau a amlinellir uchod? |

24. A oes ffyrdd eraill y dylem eu harchwilio, yn eich barn chi, i newid y fethodoleg dyraniadau am ddim i ystyried mynediad at dechnoleg datgarboneiddio?

25. A oes ffyrdd eraill, ar wahân i ddyraniadau am ddim, y gallai ETS ystyried mynediad at dechnoleg datgarboneiddio?

# Amodoldeb

Yn ogystal â lliniaru'r risg o ddadleoli carbon, mae dyraniadau am ddim hefyd yn cymell datgarboneiddio drwy ddyluniad meincnodau, gan fod meincnodau wedi'u dylunio i wobrwyo'r cynhyrchwyr mwyaf effeithlon o ran ynni yn effeithiol. Gallai amodoldeb helpu dyraniadau am ddim i gymell datgarboneiddio ymhellach, drwy sicrhau bod dyraniadau am ddim yn cael eu dyrannu yn y ffordd fwyaf effeithiol i safleoedd sy'n cymryd rhan weithredol mewn ymdrechion datgarboneiddio.

Mae Awdurdod ETS y DU wedi ystyried amodoldeb. Yn benodol, mae'r Awdurdod wedi ystyried amodoldeb sydd â'r nod o annog safleoedd i fuddsoddi mewn mesurau lleihau allyriadau neu effeithlonrwydd adnoddau. Enghraifft ryngwladol o awdurdodaeth sy'n defnyddio amodau yn eu Cynllun Masnachu Allyriadau yw ETS yr UE, a gyhoeddodd fel rhan o'u pecyn 'Fit for 55' y bydd angen i safleoedd sy'n cael dyraniadau am ddim gydymffurfio â gofynion amodoldeb.

Mae'r Awdurdod wedi edrych ar nifer o wahanol ffyrdd y gellid dylunio amodau ar ddyraniadau am ddim. Mae amodoldeb cadarnhaol yn canolbwyntio ar wobrwyo safleoedd sydd fwyaf effeithlon neu sy'n arloesi yn eu sector. Gallai hyn olygu rhoi dyraniadau am ddim ychwanegol i weithredwyr neu ddiogelu eu lefelau presennol o ddyraniadau am ddim drwy eu heithrio o brosesau a allai leihau eu dyraniad. Nod amodoldeb negyddol yw cymell datgarboneiddio drwy beidio â rhoi, neu leihau, dyraniadau am ddim i weithredwyr nad ydynt yn mynd ati'n weithredol i leihau eu hallyriadau.

Mae'r Awdurdod wedi edrych ar nifer o wahanol ffyrdd o ddylunio amodau, yn gadarnhaol ac yn negyddol, ac mae'n ystyried a ddylid mynd ar drywydd amodoldeb ar gyfer dyraniadau am ddim ymhellach. Byddwn hefyd yn mynd ati i asesu effeithiau amodoldeb ar ddiwydiannau yr effeithir arnynt os bydd y cynnig polisi hwn yn cael ei ddatblygu.

Isod, rydym wedi amlinellu tri dyluniad posibl o amodau fel enghreifftiau o amodau posibl ar gyfer dyraniadau am ddim.

**Enghraifft 1 o Ddyluniad Amodau:** Gostwng y dyraniadau am ddim i safle yn ôl swm wedi'i bennu ymlaen llaw (er enghraifft 10%) os nad yw safle wedi gwneud unrhyw ostyngiadau mewn allyriadau neu arbedion effeithlonrwydd o ran adnoddau dros gyfnod penodol. Byddai'r opsiwn hwn yn gofyn am fecanwaith sy'n cyfrif am gynnydd mewn gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chynnydd mewn allyriadau.

**Enghraifft 2 o Ddyluniad Amodau:** Eithrio'r safleoedd mwyaf effeithlon o unrhyw gymhwysiad posibl o CSCF. Gallai'r opsiwn hwn ddiffinio'r safleoedd mwyaf

effeithlon fel y rhai sy’n gweithredu ar y lefel meincnod, ac yna sicrhau nad yw’r safleoedd hyn yn gweld gostyngiad yn eu dyraniadau am ddim drwy CSCF.

**Enghraifft 3 o Ddyluniad Amodau:** Ei gwneud yn ofynnol bod gan safleoedd gynllun datgarboneiddio ar waith neu bydd eu dyraniadau am ddim yn cael eu gostwng yn ôl swm sydd wedi’i bennu ymlaen llaw (ee 10%). Gellid datblygu’r opsiwn hwn mewn amrywiaeth o ffyrdd sy’n gofyn am lymder rheoleiddio uwch neu is. Er enghraifft, ar y pen rheoleiddio isaf, gallai’r amod fod safleoedd yn cyflwyno cynllun i’r Awdurdod, ond nad oes gofynion ar lefel y manylder na’r dystiolaeth sydd eu hangen ar gyfer y cynlluniau hyn. Ar y lefel uchaf o faich rheoleiddiol, gellid dylunio’r amod hwn mewn ffordd sy’n golygu bod y cynlluniau datgarboneiddio hyn yn cael eu hasesu gan yr Awdurdod a bod meini prawf a gofynion tystiolaeth llym ar gyfer y cynlluniau hyn cyn y gellir dyfarnu dyraniadau am ddim.

| Cwestiynau |
|---|
| 26. A oes gennych safbwyntiau ynghylch a ddylai’r Awdurdod gyflwyno amodau, sy’n ymwneud ag ymdrechion datgarboneiddio, ar gael dyraniadau am ddim?<br><br>27. Uchod, rydym wedi amlinellu tri dyluniad enghreifftiol ar gyfer amodau ar ddyraniadau am ddim. A oes gennych safbwyntiau ynghylch a ddylem gyflwyno unrhyw un o’r opsiynau hyn, sut y cânt eu dylunio, ac a ydych chi’n ffafrio un o’r opsiynau a nodwyd?<br><br>28. A oes gennych safbwyntiau ar amodau eraill y dylai’r Awdurdod eu hystyried ar gyfer cael dyraniadau am ddim?<br><br>29. A oes gennych safbwyntiau ynghylch a oes cymhellion datgarboneiddio eraill y gellid eu rhoi ar waith drwy ddyraniadau am ddim?<br><br>30. A oes gennych safbwyntiau ynghylch a fyddai rhwystrau i gymhwyso amodoldeb yn deg mewn egwyddor, pe bai’r Awdurdod yn mynd ar drywydd yr opsiwn hwn? |

# Newidiadau Technegol i Ddyraniadau am Ddim

Wrth i Awdurdod ETS y DU wella ei ddull gweithredu ar gyfer polisi dyraniadau am ddim, rydym hefyd yn ystyried nifer o newidiadau technegol ehangach i wella gweithrediad a hwylustod dyraniadau am ddim.

**Newid Technegol Un: Trin terfyniadau parhaol**

O dan y rheolau presennol, mewn achosion o derfynu gweithgarwch yn barhaol, nid yw lwfansau am ddim yn cael eu dosbarthu yn y flwyddyn ar ôl i'r gweithgarwch ddod i ben. Fodd bynnag, mae gweithredwyr yn cadw lwfansau am ddim yr oedd ganddynt hawl iddynt yn ystod y flwyddyn olaf yr oeddent yn gweithredu ynddi. Y rheswm am hyn yw y bydd gweithredwyr yn parhau i fod yn agored i'r pris carbon ym mlwyddyn olaf y gweithgarwch, ac felly'n dal yn agored i ddadleoli carbon y mae'n rhaid ei liniaru. Mae'r broses hon yn wahanol i achosion o derfynu gweithgarwch dros dro, lle mae rheolau ALC yn berthnasol.

Fodd bynnag, mae'r rheolau presennol sy'n ymwneud â therfyniadau parhaol yn gallu arwain at rai gweithredwyr yn cael mwy o lwfansau am ddim yn ystod blwyddyn olaf y gweithgarwch nag sydd eu hangen arnynt i liniaru eu risg o ddadleoli carbon yn ddigonol, ac mewn rhai achosion yn cael lwfansau am ddim y tu hwnt i'r allyriadau a gofnodwyd ganddynt.

Mae Awdurdod ETS y DU yn ystyried newid y ffordd mae lwfansau am ddim yn cael eu trin yn y flwyddyn olaf mewn achosion o derfynu'n barhaol, ar gyfer safleoedd ac is-safleoedd, lle byddai hawl gweithredwyr i lwfansau am ddim yn y flwyddyn olaf yn seiliedig ar lefelau gweithgarwch gwirioneddol. O dan y cynnig hwn, byddai'n ofynnol i weithredwyr gyflwyno Adroddiad Lefel Gweithgarwch yn cynnwys data gweithgarwch ar gyfer y flwyddyn olaf o weithredu. Byddai rheoleiddwyr wedyn yn ailgyfrifo lwfansau am ddim ar sail lefelau gweithgarwch gwirioneddol, yn debyg i'r cyfrifiad dyraniadau am ddim i newydd-ddyfodiaid. Petai lwfansau am ddim a ddosbarthwyd ar ddechrau blwyddyn y cynllun, sef blwyddyn olaf gweithgarwch y gweithredwr, yn uwch na'r ail-gyfrifiad hwn, byddai'n rhaid i'r gweithredwr naill ai ddychwelyd lwfansau sydd wedi'u gor-ddyrannu, neu mewn achosion lle roedd eu dyraniad wedi cael ei ddal yn ôl gan y Rheoleiddiwr, byddai hawliau lwfans am ddim yn cael eu haddasu.

Fel rhan o'r cynnig hwn, bydd yr Awdurdod yn ystyried sefyllfaoedd lle mae is-safle yn cau at ddibenion datgarboneiddio, fel trydaneiddio cyfleusterau a phrosesau a oedd yn arfer cael eu pweru gan nwy a glo. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y cynnig yn cyd-fynd â chymhelliant datgarboneiddio'r polisi dyraniadau am ddim.

**Newid Technegol Dau: Diweddaru'r diffiniad o derfyniad parhaol**

O dan y rheolau presennol, mae safle wedi rhoi'r gorau i weithredu os nad yw gweithgaredd sy'n cael ei reoleiddio yn cael ei wneud mewn safle mwyach a'i bod yn "dechnegol amhosibl ailddechrau gweithredu". Mae is-safle wedi rhoi'r gorau i weithredu os nad yw'n gweithredu mwyach a'i bod yn "dechnegol amhosibl ailddechrau gweithredu". Gall y diffiniad hwn arwain at anawsterau gan fod modd dehongli "yn dechnegol amhosibl ailddechrau gweithredu" mewn amryw o ffyrdd.

Mae Awdurdod ETS y DU yn cynnig diweddaru'r diffiniad o derfyniad parhaol er mwyn dileu'r cyfeiriad at "yn dechnegol amhosibl ailddechrau gweithredu" ac yn hytrach, cyfeirio at derfynu gweithgarwch yn barhaol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn bwriadu darparu rhagor o eglurder mewn sefyllfaoedd lle daw terfyniadau gweithgarwch dros dro yn derfyniadau parhaol, yn enwedig o ran dyddiad terfynu'n barhaol er mwyn penderfynu ar yr hawl i ddyraniadau am ddim yn unol â Chynnig Un uchod. Mae'r Awdurdod yn cynnig, os nad yw gweithgaredd sy'n cael ei reoleiddio yn cael ei wneud mewn safle/is-safle mwyach, y bydd y terfyniad yn cael ei drin fel terfyniad parhaol oni bai fod y gweithredwr yn dangos i'r rheoleiddiwr bod:

i. y safle/is-safle yn dechnegol yn gallu ailddechrau gwneud gweithgareddau sy'n cael eu rheoleiddio heb wneud newidiadau ffisegol neu ei fod yn bwriadu adfer gallu technegol y safle/is-safle er mwyn ailddechrau gwneud gweithgareddau sy'n cael eu rheoleiddio;
ii. a'i fod yn bwriadu ailddechrau gweithgareddau o'r fath.

Os nad yw'r gweithredwr yn dangos yr uchod, dyddiad terfynu'n barhaol y safle/is-safle yw'r dyddiad y mae'r gweithgaredd sy'n cael ei reoleiddio yn stopio cael ei wneud. Os yw'r gweithredwr yn dangos yr uchod ar adeg benodol ac yn bwriadu ailddechrau gweithgareddau ond nad yw'n gwneud hynny, dyddiad terfynu'n barhaol y safle/is-safle yw'r dyddiad y mae'r gweithredwr yn atal y gweithgareddau sy'n cael eu rheoleiddio yn y safle/is-safle.

Mae'r Awdurdod yn bwriadu diwygio'r diffiniad o derfyniad parhaol naill ai drwy ddeddfwriaeth neu drwy lwybrau eraill, fel cyhoeddi canllawiau.

**Newid Technegol Tri: Diweddaru cynnwys sylfaenol y cynllun methodoleg monitro**

Mae'r Rheoliad ar Ddyraniadau am Ddim (FAR) yn cynnwys gofyniad i osodiadau gynnal Cynlluniau Methodoleg Monitro (MMPs), sy'n rhan o drwydded gweithredwr. Rhaid i'r rheoleiddwyr gynnwys amodau trwydded sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr (i) monitro eu data yn unol â'u MMP a'r FAR, (ii) cadw cofnodion o ddata yn unol â'r FAR, (iii) gwneud cais i amrywio eu trwyddedau pan fydd addasiad

sylweddol i’w MMP a (iv) rhoi gwybod i’r rheoleiddiwr am addasiadau nad ydynt yn sylweddol.

Ar hyn o bryd, mae’r MMP yn gofyn am ddisgrifiad ar lefel is-safle o’r dulliau a ddefnyddir i fesur faint o drydan sy’n cael ei ddefnyddio a’i gynhyrchu, a dylid cynnwys y rhan o’r defnydd y gellir ei chyfnewid lle bo hynny’n berthnasol.

Mae’r Awdurdod yn ystyried diweddaru’r FAR i fynnu’r gwaith mesur mwyaf cywir ar gyfer y safleoedd hynny lle mae angen gwybodaeth am gyfnewidadwyedd trydan at ddibenion dyrannu.

Mae’r Awdurdod yn ystyried diweddaru’r rheoliad dyraniadau am ddim i adlewyrchu mai dim ond safleoedd sy’n cynhyrchu trydan i’w allforio neu sy’n cael ei gwmpasu gan gyfnewidadwyedd sydd angen adrodd ar y cydbwysedd trydan.

**Newid Technegol Pedwar: Newidiadau i’r Hierarchaeth Mesuriadau Mesuryddion Gwres**

Mae’r FAR yn nodi bod yr hierarchaeth ar gyfer mesur gwres yn ddarostyngedig i Reolaeth Fesuregol Gyfreithiol Genedlaethol neu’n cydymffurfio â’r Gyfarwyddeb Offerynnau Mesur (MID), ond dim ond mesuryddion hylifol (ee dŵr) sy’n gallu bodloni hyn; felly ni all nifer uchel o safleoedd fodloni’r hierarchaeth ac nid oes ganddynt safon cywirdeb i’w bodloni – hy gall mesuriadau fod yn +10% neu fwy.

Mae’r Awdurdod yn ystyried diweddaru hwn i gynnwys, ar gyfer mesuryddion gwres, y gellir derbyn cywirdeb cyfwerth â mesuryddion sy’n cydymffurfio â’r MID (ee +3% o’r darlleniadau gwirioneddol ar gyfer gwres y mae modd ei fesur). Mae hyn yn golygu y bydd angen i weithredwyr sy’n cael dyraniadau am ddim o dan y meincnod gwres ar gyfer defnyddio stêm gynnal asesiad ansicrwydd ac os na ellir dangos y lefel ofynnol o ansicrwydd, efallai y bydd angen gwella’r system fesur. Ni fyddai hyn yn mynnu bod safleoedd lle nad yw gwres yn rhan o’r meincnod, er enghraifft gyda’r rhan fwyaf o feincnodau cynnyrch, yn mesur gwres i’r lefel uchaf yn yr hierarchaeth.

**Newid Technegol Pump: Addasu’r Egwyddorion Monitro mewn cysylltiad â Hierarchaeth**

Nid oes gofyniad i adolygu MMP lle nad yw’r dulliau mesur mwyaf cywir yn cael eu defnyddio. Mae’r Awdurdod yn cynnig addasu’r Egwyddorion Monitro yn y FAR i ofyn i’r gweithredwr ailedrych pan fydd rhanddirymiadau i’r hierarchaeth ar gyfer dulliau monitro yn cael eu caniatáu bob cyfnod dyrannu.

**Newid Technegol Chwech: Diweddaru’r Cyfrifiad Cost Afresymol**

Mae’r cyfrifiad cost afresymol yn caniatáu i’r Awdurdod ystyried a fyddai amcangyfrif cost gweithredwr yn fwy na budd methodoleg pennu benodol. Mae’r Awdurdod yn ystyried diweddaru’r ffigur pris cyfeirio a ddefnyddir yn y cyfrifiad hwn i adlewyrchu prisiau Lwfansau ETS y DU yn well. Bydd yr Awdurdod yn penderfynu ar lefel briodol

pris UKA ar gyfer cyfrifo cost afresymol yn ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad hwn.

**Newid Technegol Saith: Gofyniad i archwilio'r system reoli bob blwyddyn.**


Mae'n ofynnol i weithredwyr asesu eu systemau rheoli i'r Awdurdod ar gais ac at ddibenion dilysu. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i gyfarpar mesur gweithgareddau rheoli gael ei raddnodi, ei addasu a'i wirio'n rheolaidd cyn ei ddefnyddio. I gyd-fynd â'r gofynion ar gyfer Monitro Allyriadau, mae'r Awdurdod yn ystyried cyflwyno gofynion gwirio blynyddol ar gyfarpar mesur i sicrhau ei fod yn cyrraedd y safon ofynnol.


| Cwestiynau |
| --- |
| 31. Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu'r Awdurdod ar gyfer Newid Technegol Un ar gyfer trin lwfansau am ddim yn y flwyddyn olaf pan fydd gweithgarwch yn terfynu'n barhaol? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb<br>32. O ran dull gweithredu arfaethedig yr Awdurdod ar gyfer Newid Technegol Un, pa risgiau y dylai'r Awdurdod eu hystyried o ran dychwelyd lwfansau sydd wedi'u gorddyrannu?<br>33. Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu'r Awdurdod ar gyfer Newid Technegol Dau ar gyfer diweddaru'r diffiniad o derfyniad parhaol gweithgarwch? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb<br>34. Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu'r Awdurdod ar gyfer Newid Technegol Tri i ddiweddaru cynnwys sylfaenol y cynllun methodoleg monitro? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb<br>35. Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu'r Awdurdod ar gyfer Newid Technegol Pedwar i newid hierarchaethau mesuriadau mesuryddion gwres? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb<br>36. Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu'r Awdurdod ar gyfer Newid Technegol Pump i addasu'r Egwyddorion Monitro mewn cysylltiad â hierarchaethau? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb<br>37. Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu'r Awdurdod ar gyfer Newid Technegol Chwech i ddiweddaru pris cyfeirio'r cyfrifiad cost afresymol? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb |

| 38. Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu'r Awdurdod ar gyfer Newid Technegol Saith i fynnu bod archwiliadau systemau rheoli yn cael eu cynnal bob blwyddyn? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb |
|---|

# Crynodeb o'r Cynigion

Mae'r tabl isod yn crynhoi prif feysydd y newidiadau arfaethedig i'r cyfrifiad dyraniadau am ddim presennol. Mae'r Awdurdod yn ymwybodol o'r angen i roi sicrwydd ynghylch lefelau dyraniadau am ddim yn y dyfodol ac mae wedi nodi isod y camau y bydd yn eu cymryd i liniaru unrhyw ansicrwydd.

| Maes Polisi presennol Dyraniadau am Ddim | Cynnig Polisi | Newidiadau Allweddol yn y Cynnig Newydd | Yr Effaith ar Ddyraniadau am Ddim cyfun | Lliniaru'r risg o Ansicrwydd |
|---|---|---|---|---|
| **Newidiadau mewn Lefelau Gweithgarwch** | **Dyraniadau Dynamig** | Mae'r dyraniad cychwynnol yn un dros dro, yn seiliedig ar gyfnod treigl o flynyddoedd diweddar sydd ar gael. Dyraniadau am ddim yn cael eu haddasu ar ôl bob blwyddyn cynllun ar sail gweithgarwch a adroddir, gan dynnu'r trothwy 15% ar gyfer newidiadau.<br><br>Byddai newidiadau mewn lefelau gweithgarwch ar gyfer meincnodau wrth gefn yn dal i gael eu hasesu yn erbyn llinell sylfaen effeithlonrwydd ynni i | <br>Gall dull dynamig **gynyddu neu ostwng cyfanswm y dyraniadau am ddim** | Bydd ymateb y Llywodraeth yn amlinellu manylion y fethodoleg i'w datblygu, gan ganiatáu i weithredwyr ragfynegi eu dyraniadau am ddim ar sail eu gweithgarwch amcanol.<br><br>Bydd tablau dyraniadau rhagarweiniol yn parhau i gael eu cyhoeddi. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | benderfynu a ddylid eu prosesu. | | |
| **Meincnodau** | **Cyfradd Gostyngiad Blynyddol y DU** | Byddai Cyfradd y Gostyngiad Blynyddol (ARR) yn cael ei chyfrifo ar sail data'r DU sy'n adlewyrchu gwelliant mewn effeithlonrwydd allyriadau ar gyfer safleoedd yn y DU rhwng dau bwynt mewn amser. Byddai'r ARR hon yn cael ei chymhwyso i'r meincnodau presennol. |  Bydd Cyfraddau Gostyngiad Blynyddol y DU yn cael eu cymhwyso i feincnodau presennol ac felly'n **gostwng dyraniadau am ddim**. Bydd y graddau'n ddarostyngedig i ganlyniadau'r Ymarfer Adrodd Data'r Llinell Sylfaen | Ceir manylion asesiad presennol yr Awdurdod o amrediad cyfradd y gostyngiad blynyddol yn yr atodiad dadansoddol.<br><br>Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi gwerthoedd meincnodau cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl yr ymarfer adrodd data'r llinell sylfaen. |
| **Rhestr Dadleoli Carbon** | **Dangosydd Dadleoli Carbon ar sail Data'r DU** | Mae'r Awdurdod yn ystyried newidiadau i'r data a ddefnyddir fel sail yr asesiad o'r dangosydd dadleoli carbon, gan archwilio ymhellach y defnydd o ddata dwysedd allyriadau a masnachu'r DU. |  Mae'n bosibl y bydd data'r DU ar gyfer asesu dangosydd dadleoli carbon yn **cynyddu neu'n gostwng cyfanswm y dyraniadau am ddim**, ond mae'n rhaid trin hyn ar y cyd â'r cynigion ar gyfer rhannu'r CLEF yn haenau | Bydd yr Awdurdod yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad fel rhan o ddatblygiad polisi pellach a bydd yn cyhoeddi rhestr dadleoli carbon rhagarweiniol gyda ffactorau cysylltiedig sy'n ymwneud â dadleoli carbon ar gyfer gwahanol sectorau, cyn ymateb terfynol y Llywodraeth yn 2024.<br><br>Bydd hyn yn galluogi cyfranogwyr a phartïon â diddordeb i roi rhagor |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Tynnu'r Ffactor Agored i Ddadleoli Carbon ar gyfer sectorau nad ydynt mewn perygl o ddadleoli carbon** | Byddai'r Awdurdod yn dwyn ymlaen y broses o gyflwyno dyraniadau am ddim i 2026 ar gyfer sectorau y mae eu sgoriau dangosydd dadleoli carbon yn dangos nad ydynt mewn perygl o ddadleoli carbon, gan leihau eu ffactor agored i 0. | Byddai tynnu dyraniadau am ddim ar gyfer sectorau nad ydynt mewn perygl o ddadleoli carbon **yn gostwng cyfanswm y dyraniadau am ddim** | o fewnbwn cyn i benderfyniadau terfynol gael eu gwneud.<br><br>Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod y rhestr dadleoli carbon derfynol yn cael ei chyhoeddi cyn y ffenestr gwneud cais am ddyraniadau am ddim i sicrhau bod gweithredwyr yn cael sicrwydd ynghylch eu cymhwysedd i gael cymorth. |
| | **Rhannu'r Ffactor Agored i Ddadleoli Carbon neu'r Ffactor Cywiro ar draws Sectorau yn Haenau** | Mae'r ffactor agored i ddadleoli carbon yn ddeuaidd ar hyn o bryd, gyda dwy lefel yn pennu a yw sectorau mewn perygl, neu ddim mewn perygl, o ddadleoli carbon. Mae'r opsiynau sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad yn cynnig dulliau gwahanol ar gyfer rhannu'r ffactor agored neu'r ffactor cywiro ar draws sectorau yn haenau ar sail gwahanol sgorau dangosydd dadleoli carbon, gan ei gwneud yn bosibl targedu cymorth yn well. | Mae rhannu'n haenau **yn gwella targedu ac yn gostwng cyfanswm y dyraniadau am ddim** er mwyn cyd-fynd â chap y diwydiant | |

# Cwestiynau'r ymgynghoriad

1. A oes gennych unrhyw safbwyntiau ar y rhyngweithio rhwng mesurau lliniaru dadleoli carbon eraill a CBAM a/neu'r senarios polisi cyffredinol y dylai Awdurdod

ETS y DU eu harchwilio yn y dyfodol, o ystyried bod Llywodraeth y DU wedi penderfynu cyflwyno CBAM? Esboniwch eich ymateb.

2. A ddylai ETS y DU gynnal y dull presennol ar gyfer newidiadau mewn lefel gweithgarwch neu newid i ddull gweithredu dynamig (hy a ddylid addasu'r dyraniadau am ddim ar ôl diwedd blwyddyn cynllun ar sail lefelau gweithgarwch a adroddir)?

3. Pe bai dull gweithredu dynamig yn cael ei roi ar waith, a ddylid cyfrifo dyraniadau dros dro ar sail cyfnod treigl o weithgarwch a adroddwyd yn ddiweddar?

4. Pe bai dyraniadau dros dro yn cael eu cyfrifo drwy gyfnod treigl, a ddylai hyn fod yn seiliedig ar y ddwy flynedd galendr lawn ddiweddaraf o weithgarwch wedi'i ddilysu (ee 2023-2024 ar gyfer dyraniadau 2026)?

5. O dan y dull dynamig, a ddylai'r cyfrifiad effeithlonrwydd ynni ar gyfer is-safleoedd meincnod wrth gefn barhau i gyfeirio at linell sylfaen hanesyddol sefydlog?

6. Os na fydd ETS y DU yn newid i ddull gweithredu dynamig, a ddylai Awdurdod ETS y DU ystyried lleihau'r trothwy ALC o 15%, ac os felly, beth fyddai trothwy priodol?

7. Ydych chi'n cytuno mai meincnodi yw'r fethodoleg briodol i sicrhau bod lwfansau am ddim yn gwobrwyo'r safleoedd sy'n perfformio orau ac yn cymell datgarboneiddio? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb

8. Beth yw eich barn chi ar yr opsiynau arfaethedig ar gyfer diweddaru meincnodau ETS y DU?

9. Ydych chi'n cytuno â'r bwriad arfaethedig ar gyfer diweddaru meincnodau gan ddefnyddio data'r DU yn unig i bennu'r ARR? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb

10. Os nad ydych chi'n cytuno â'r fethodoleg a awgrymir, rhowch dystiolaeth ategol ynghylch pam na ddylid ei dilyn ac awgrymiadau ar gyfer methodoleg amgen ar gyfer diweddaru meincnodau.

11. A oes gennych unrhyw safbwyntiau ar fethodolegau eraill y gellir eu defnyddio i ddiweddaru meincnodau heb is-safleoedd yn y DU?

12. Ydych chi'n cytuno y dylid diweddaru'r rhestr dadleoli carbon i adlewyrchu risg dadleoli carbon sector diwydiannol y DU? Os ydych yn anghytuno, esboniwch sut rydych yn meddwl y dylid cyfrifo'r rhestr dadleoli carbon yn y dyfodol.

13. Ydych chi’n cytuno y dylid parhau i gyfrifo’r risg o ddadleoli carbon ar sail dwysedd allyriadau a dwysedd masnachu, neu a oes ffactorau eraill y dylai’r Awdurdod eu hystyried yn eich barn chi?

14. Ar sail y setiau data rydym wedi’u harchwilio, ydych chi’n cytuno â’n dull o archwilio gan ddefnyddio data’r DU yn seiliedig ar ddata masnachu’r SYG, ABS a CThEF? Ac, os canfyddir bod y set ddata hon yn gynrychioliadol, ydych chi’n cytuno y dylai’r Awdurdod ei defnyddio i gyfrifo’r dangosydd dadleoli carbon?

15. Ydych chi’n cytuno â’r risgiau rydym wedi’u nodi gyda’r setiau data amgen? Os nad ydych chi, darparwch dystiolaeth.

16. Ydych chi’n cytuno â’n bwriad i ddod â dyddiad dirwyn i ben y CLEF ymlaen i 2026 ar gyfer y rhai nad ydynt ar restr dadleoli carbon 2026?

17. Ydych chi’n cytuno y dylai’r Awdurdod rannu’r rhestr dadleoli carbon yn haenau er mwyn targedu’r rhai sydd fwyaf mewn perygl o ddadleoli carbon yn well?

18. A oes gennych safbwyntiau ar yr egwyddorion y dylai’r Awdurdod eu defnyddio i lywio’r broses o wneud penderfyniadau ar ddylunio haenau os byddwn yn dewis rhannu’r rhestr dadleoli carbon yn haenau?

19. Uchod, rydym wedi amlinellu tair enghraifft o ffyrdd y gallem rannu’r rhestr dadleoli carbon yn haenau. A oes gennych unrhyw safbwyntiau ar y rhain? A oes gennych safbwyntiau ar ffyrdd eraill o wneud hyn?

20. A oes gennych safbwyntiau ynghylch a ddylem rannu’r Ffactor Cywiro ar draws Sectorau yn Haenau os caiff ei ddefnyddio?

21. A oes gennych safbwyntiau ar yr egwyddorion rydym wedi’u hamlinellu ar gyfer ystyried technoleg datgarboneiddio?

22. A oes gennych safbwyntiau ar sut dylai Awdurdod ETS y DU ddiffinio technolegau datgarboneiddio i’w cynnwys yn y gwaith hwn?

23. Uchod, rydym wedi amlinellu dwy fethodoleg bosibl ar gyfer sut y gallem ystyried mynediad at dechnoleg datgarboneiddio wrth gyfrifo dyraniadau am ddim. A oes gennych safbwyntiau ar y dulliau a amlinellir uchod?

24. A oes ffyrdd eraill y dylem eu harchwilio, yn eich barn chi, i newid y fethodoleg dyraniadau am ddim i ystyried mynediad at dechnoleg datgarboneiddio?

25. A oes ffyrdd eraill, ar wahân i ddyraniadau am ddim, y gallai ETS ystyried mynediad at dechnoleg datgarboneiddio?

26. Oes gennych safbwyntiau ynghylch a ddylai’r Awdurdod gyflwyno amodau, sy’n ymwneud ag ymdrechion datgarboneiddio, ar gael dyraniadau am ddim?

27. Uchod, rydym wedi amlinellu tri dyluniad enghreifftiol ar gyfer amodau ar ddyraniadau am ddim. A oes gennych safbwyntiau ynghylch a ddylem gyflwyno unrhyw un o’r opsiynau hyn, sut y cânt eu dylunio, ac a ydych chi’n ffafrio un o’r opsiynau a nodwyd?

28. A oes gennych safbwyntiau ar amodau eraill y dylai’r Awdurdod eu hystyried ar gyfer cael dyraniadau am ddim?

29. A oes gennych safbwyntiau ynghylch a oes cymhellion datgarboneiddio eraill y gellid eu rhoi ar waith drwy ddyraniadau am ddim?

30. A oes gennych safbwyntiau ynghylch a fyddai rhwystrau i gymhwyso amodoldeb yn deg mewn egwyddor, pe bai’r Awdurdod yn mynd ar drywydd yr opsiwn hwn?

31. Ydych chi’n cytuno â dull gweithredu’r Awdurdod ar gyfer Newid Technegol Un ar gyfer trin lwfansau am ddim yn y flwyddyn olaf pan fydd gweithgarwch yn terfynu’n barhaol? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb

32. O ran dull gweithredu arfaethedig yr Awdurdod ar gyfer Newid Technegol Un, pa risgiau y dylai’r Awdurdod eu hystyried o ran dychwelyd lwfansau sydd wedi’u gorddyrannu?

33. Ydych chi’n cytuno â dull gweithredu’r Awdurdod ar gyfer Newid Technegol Dau ar gyfer diweddaru’r diffiniad o derfyniad parhaol gweithgarwch? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb

34. Ydych chi’n cytuno â dull gweithredu’r Awdurdod ar gyfer Newid Technegol Tri i ddiweddaru cynnwys sylfaenol y cynllun methodoleg monitro? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb

35. Ydych chi’n cytuno â dull gweithredu’r Awdurdod ar gyfer Newid Technegol Pedwar i newid hierarchaethau mesuriadau mesuryddion gwres? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb

36. Ydych chi’n cytuno â dull gweithredu’r Awdurdod ar gyfer Newid Technegol Pump i addasu’r Egwyddorion Monitro mewn cysylltiad â hierarchaethau? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb

37. Ydych chi’n cytuno â dull gweithredu’r Awdurdod ar gyfer Newid Technegol Chwech i ddiweddaru pris cyfeirio’r cyfrifiad cost afresymol? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb

38. Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu'r Awdurdod ar gyfer Newid Technegol Saith i fynnu bod archwiliadau systemau rheoli yn cael eu cynnal bob blwyddyn? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb

# Y Camau Nesaf

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu defnyddio i ddatblygu penderfyniadau polisi terfynol ar gyfer yr adolygiad o ddyraniadau am ddim.

Bydd yr ymgynghoriad ar agor am 12 wythnos. Bydd yr Awdurdod wedyn yn ystyried yr ymatebion ac mae'n bwriadu cyhoeddi Ymateb y Llywodraeth yn 2024, gyda'r bwriad o roi newidiadau ar waith cyn y cyfnod dyrannu nesaf yn 2026.

# Geirfa

**Adrodd Data'r Llinell Sylfaen:** Yr adroddiad data y mae gweithredwyr yn ei gyflwyno i reoleiddwyr cyn dechrau pob cyfnod dyrannu.

**Adroddiadau Lefel Gweithgarwch:** Y data lefel gweithgarwch y mae'n rhaid i weithredwyr ei gyflwyno ar ddiwedd pob blwyddyn cynllun.

**Cap y Diwydiant:** Cyfran y dyraniadau am ddim o dan y cap sydd ar gael i'w dosbarthu am ddim.

**Cyfraddau Gostyngiad Blynyddol:** Cyfradd y gostyngiad a roddir ar feincnodau i gyfrifo'r dwysedd allyriadau a ragwelir mewn cyfnod.

**Dadleoli Allforion:** Pan fydd cynhyrchion sy'n cael eu hallforio yn colli eu cyfran dramor ac yn cael eu disodli gan gynhyrchion mwy dwys o ran allyriadau o wledydd eraill, gan arwain at gynnydd cyffredinol mewn allyriadau.

**Dadleoli Carbon:** Mae dadleoli carbon yn golygu symud cynhyrchiant ac allyriadau cysylltiedig o un wlad i un arall oherwydd gwahanol lefelau o ymdrech datgarboneiddio drwy brisio carbon a dylanwadu ar yr hinsawdd.

**Dangosydd Dadleoli Carbon:** Y gwerth a roddir i sector i ddangos pa mor agored i risg o ddadleoli carbon ydyw.

**Ffactor Agored i Ddadleoli Carbon:** Y ganran yn erbyn y meincnod y mae sector yn ei gael yn y cyfrifiad dyraniadau am ddim.

**Ffactor Cywiro ar draws Sectorau:** Os yw cyfanswm y dyraniadau am ddim ar gyfer pob safle diwydiannol yn uwch na chap y diwydiant mewn unrhyw flwyddyn benodol, caiff dyraniadau am ddim pawb eu gostwng yn gymesur.

**Lefel Gweithgarwch Hanesyddol:** Y lefel gweithgarwch cyfartalog dros flynyddoedd y llinell sylfaen ar gyfer cyfnod dyrannu penodol (ee ar gyfer cyfnod dyrannu 2021-2025, blynyddoedd y llinell sylfaen oedd 2014-2018).

**Mecanwaith Addasu Pris Carbon ar draws Ffiniau:** Pris carbon ar gynhyrchion sy'n cael eu mewnforio. Mae hyn yn aml yn adlewyrchu'r carbon sy'n cael ei allyrru wrth gynhyrchu ynghyd ag unrhyw fwlch rhwng y pris carbon sy'n cael ei ddefnyddio yn y wlad wreiddiol a'r pris carbon a fyddai wedi codi pe baent wedi cael eu cynhyrchu yn yr awdurdodaeth gyda phris carbon.

**Meincnodau Cynnyrch:** Mae 52 o feincnodau cynnyrch, pob un yn cynrychioli cyfartaledd y 10% o safleoedd mwyaf effeithlon ar gyfer cynnyrch penodol.

**Meincnodau Wrth Gefn:** Lle nad yw'n bosibl defnyddio meincnod cynnyrch, defnyddir dau feincnod wrth gefn sy'n seiliedig ar gynhyrchu gwres a defnyddio tanwydd, neu ffactor allyriadau proses.

**Meincnodau:** Mae meincnod yn werth cyfeirio ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr o'i gymharu â gweithgarwch cynhyrchu.

**Newidiadau mewn Lefelau Gweithgarwch:** Y broses sy'n cael ei sbarduno os bydd lefel gweithgarwch cyfartalog gweithredwr mewn unrhyw gyfnod o ddwy flynedd yn cynyddu neu'n gostwng 15% neu fwy o'i gymharu â'i lefel gweithgarwch hanesyddol (HAL)

**Rhestr Dadleoli Carbon:** Rhestr o sectorau yr ystyrir eu bod mewn perygl o ddadleoli carbon.